

Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin

ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNLLUNIO BLYNYDDOL 2019

(Cyfnod adrodd Ebrill 2018 – Mawrth 2019)



RHAGAIR

Mae'n bleser gennyf gyflwyno pumed Adroddiad Perfformiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin, gwasanaeth sy'n chwarae rhan allweddol yn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, a fydd yn cwmpasu pob agwedd ar fywydau pobl. Rwyf yn croesawu'r Adroddiad Perfformiad Cynllunio Blynyddol yn fawr gan ei fod yn crynhoi'r gwaith parhaus a wneir i wella perfformiad, a bydd yn ffurfio'r sail ar gyfer dadansoddiad o flwyddyn i flwyddyn.

Mae cynllunio da yn ganolog i'n gwaith fel Cyngor, gan sicrhau lleoedd da a diogel i'n trigolion fyw, gweithio a mwynhau eu hamser hamdden ynddynt. Gall y gwasanaeth cynllunio helpu i gyflawni'r nodau hyn ochr yn ochr â sicrhau twf yn yr economi a diogelu ein cynefinoedd naturiol. O fabwysiadu Deddf Cynllunio (Cymru) ym mis Gorffennaf 2015 cyflwynwyd nifer o heriau newydd ac mae goblygiadau'r Ddeddf honno yn parhau i ymddangos ar ffurf is-ddeddfwriaethau a chanllawiau. Mae'r Deddfau eraill sy'n gymharol newydd ac sydd â goblygiadau ar gyfer y broses gynllunio yng Nghymru yn cynnwys Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Bydd y Cyngor hwn yn parhau i roi sylw i groesawu'r symudiad tuag at gynllunio cadarnhaol, fel y rhagnodir gan y Ddeddf Gynllunio.



Y Cynghorydd Mair Stephens
Dirprwy Arweinydd

Rhagarweiniad

Diben yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol hwn yw nodi'r cyd-destun cynllunio dros y cyfnod o 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019 ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Nid yw'r adroddiad yn cynnwys y rhannau hynny o'r Sir sy'n dod o dan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan fod gan yr awdurdod hwnnw ei swyddogaeth Rheoli Datblygu a'i Gynllun Datblygu Lleol ei hun, ac y bydd wedi paratoi ei Adroddiad Perfformiad Blynnyddol ei hun ar gyfer yr un cyfnod.

Y Sir

Mae Sir Gaerfyrddin yn sir amrywiol lle mae economi a thirwedd amaethyddol yr ardaloedd gwledig yn eistedd ochr yn ochr â'r ardal drefol a diwydiannol yn y de-ddwyrain. Fodd bynnag, gan mai sir wledig yw hi gan fwyaf, mae'r dwysedd poblogaeth yn isel, sef 75.7 o bobl i bob cilometr sgwâr, o gymharu â 140 o bobl i bob cilometr sgwâr yng Nghymru gyfan. Mae'r dwysedd poblogaeth isel hwn yn fwy amlwg yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin nag ydyw yn ne a dwyrain y Sir lle mae 65% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn byw ar ryw 35% o'r tir.

Mae prif drefi'r sir yn cynnwys Llanelli, Rhydaman/Cross Hands a Chaerfyrddin, gyda'r rhai cyntaf yn ganolfannau diwydiannol o bwys hanesyddol yn yr ardal dde-ddwyrainiol. Saif tref farchnad hanesyddol Caerfyrddin wrth y porth i orllewin Cymru, ac oherwydd ei lleoliad daearyddol canolog mae fel arfer yn diwallu anghenion ardaloedd gwledig y Sir a thu hwnt. Mae aneddiadau mawr eraill y sir yn amrywio o ran eu maint ac mae llawer ohonynt yn gwneud cyfraniadau nodedig at anghenion a gofynion eu cymuned a'r cyffiniau. Caiff y rhain eu hategu gan nifer o bentrefi ac aneddiadau gwledig sy'n hunangynhaliol o ran cyfleusterau a gwasanaethau; fodd bynnag, mae llawer o aneddiadau llai eraill yn brin o wasanaethau a chyfleusterau. Mae anghenion preswylwyr yn yr ardaloedd olaf hyn yn cael eu diwallu gan aneddiadau cyfagos fel arfer.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a fabwysiadwyd yn adeiladu ar nodweddion gofodol ac amrywiaeth y sir a'i chymunedau ac yn ceisio atgyfnerthu'r patrwm aneddiadau gofodol presennol a fframweithiau cynlluniau datblygu blaenorol, ac ar yr un pryd parhau i adlewyrchu a hybu cynaliadwyedd. Mae'n ceisio rhoi ar waith fframwaith defnydd tir sy'n adlewyrchu ac yn hybu hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, ac felly lleihau'r angen i deithio a gwella cynhwysiant cymdeithasol. Mae'n cynrychioli ymagwedd dan arweiniad cynllun sydd wedi'i seilio'n gadarn ar y cyd-destun gofodol presennol gyda'r nod o sicrhau aneddiadau hunangynhaliol hyfyw a chymunedau gwledig cynaliadwy. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd o atgyfnerthu cyfleusterau sy'n bodoli eisoes, ac yn ei gwneud yn bosibl cefnogi, cadw a pharhau i ddarparu cyfleusterau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth hyfyw mewn lleoliadau hygyrch a phriodol. Mae hefyd yn golygu bod modd datblygu rhagor o economïau lleol cynaliadwy ac mae'n hwyluso cyfleoedd adfywio.

Cadarnheir pwysigrwydd strategol y Sir gan y ffaith ei bod wedi ei lleoli o fewn tair ardal a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru (CGC):

- Sir Benfro - Yr Hafan;

- Bae Abertawe - Y Glannau a'r Cymoedd Gorllewinol; a
- Chanolbarth Cymru.

Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe'n cwmpasu ardaloedd Cyngorau Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'n dwyn ynghyd byd busnes, llywodraeth leol ac amrywiaeth o bartneriaid eraill, gan weithio tuag at greu ffyniant economaidd i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Ddinas-ranbarth. Mae Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013 - 2030 yn gosod y fframwaith strategol ar gyfer y rhanbarth, gyda'r nod o gefnogi datblygiad yr ardal dros y degawdau i ddod. Mae'r CDLI, wrth gydnabod rôl Sir Gaerfyrddin, yn darparu trwy ei bolisïau a'i gynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth (gan gynnwys adfywio), gyda'r economi'n elfen bwysig yn strategaeth y Cynllun. Bydd rôl ddatblygol y Ddinas-ranbarth a'r Fargen Ddinesig yn ystyriaeth wrth sicrhau bod y dulliau ym mhob Sir yn parhau i fod yn gydnaws o safbwynt cyd-destun strategol y Rhanbarth.

Y Cefndir Cynllunio

Cafodd CDLI Sir Gaerfyrddin ei fabwysiadu ar 10 Rhagfyr 2014, ac mae'n cyflwyno'r weledigaeth ofodol ar gyfer dyfodol Sir Gaerfyrddin (ac eithrio'r ardal honno sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd â'i CDLI ei hun) ynghyd â fframwaith ar gyfer dosbarthu a darparu twf a datblygiad. Mae'n amlinellu'r cynigion a'r polisïau cynllunio defnydd tir ar gyfer y dyfodol ar draws Sir Gaerfyrddin ac mae'n ffurfio'r sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ac wrth lywio cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer buddsoddi a thwf.

Mae polisïau'r CDLI yn cynnwys dyraniadau tir ar gyfer y gwahanol fathau o ddatblygiadau (h.y. tai, cyflogaeth, addysg, mannau agored, yr amgylchedd adeiledig a naturiol ac ati) yn ogystal â'r meini prawf ar gyfer asesu cynigion unigol. Mae'r CDLI yn cael effaith uniongyrchol ar fywyd pob un sy'n byw yn y Sir ac mae iddo hefyd oblygiadau mawr i raglenni buddsoddi, strategaethau a chynlluniau eraill, cymunedau a pherchenogion tir. Bydd y CDLI presennol yn llywio datblygiadau hyd at 2021 a chaiff ei fonitro'n unol â'r fframwaith monitro a osodir yn y Cynllun hwnnw a'i adolygu.


Paratowyd yr Adroddiad Monitro Blynnyddol ar y CDLI mabwysiedig i weld sut y mae'r Cynllun yn gweithio'n ymarferol mewn gwirionedd. Cafodd yr adroddiad hwn a'i argymhellion eu hystyried gan y Cyngor Sir ar 9 Hydref 2019, a chânt eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a'u cyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin yn ôl y gofyn erbyn 31 Hydref 2019.

Yn ystod 2017/2018 penderfynodd y Cyngor ddechrau ar yr Adolygiad o'r CDLI ac ym mis Mehefin 2018 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Gytundeb Cyflawni ar gyfer llunio'r CDLI diwygiedig hwn. Mae'r Cyngor felly'n gweithio tuag at gael CDLI newydd ar waith a'i fabwysiadu erbyn diwedd 2021.

Cynllunio a gweithgarwch strategol a gweithredol ehangach y Cyngor

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud ag annog cyrff cyhoeddus i feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'n gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn helpu i greu Cymru yr ydym i gyd am fyw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol. Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn gosod **saith** nod llesiant ar waith, a nodir isod:

Nodau Llesiant



Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r 5 Ffordd o Weithio

Mae'r egwyddor yn cynnwys **pum ffordd allweddol o weithio** y mae disgwyl i gyrff cyhoeddus eu cymryd i ystyriaeth wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy. Y rhain yw:-

- A. Edrych i'r **tymor hir** i sicrhau nad ydynt yn amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion;
- B. Mabwysiadu dull **integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu blaenoriaethau;
- C. **Cynnwys** amrywiaeth y boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- D. Gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ganfod atebion cynaliadwy a rennir;

E. Deall achosion sylfaenol problemau er mwyn eu **hatal** rhag codi.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd Cynlluniau Llesiant yn darparu rhan o'r sylfaen dystiolaeth a'r cyd-destun ar gyfer CDLIau ac unrhyw Gynlluniau Datblygu Strategol yn y dyfodol. Bydd y CDLI yn parhau i fod yn offeryn allweddol wrth gyflawni Cynlluniau Llesiant a cheir manteision clir o ran effeithlonrwydd, ymgysylltu a chanlyniadau o gyflawni'r ddwy broses gyda'i gilydd. Bydd y Cynlluniau Llesiant yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o gynhyrchu'r CDLI newydd i sicrhau bod y ddau Gynllun craidd hyn yn parhau i gyd-fynd â'i gilydd.

Mae'r CDLI hefyd yn gweithio llaw yn llaw â chynlluniau a strategaethau corfforaethol eraill i gyflawni canlyniadau cynaliadwy. Mae gan nifer o'r strategaethau hyn agenda cynaliadwyedd gyffredin. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys:

- Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2018-2023
- Strategaeth Dai Sir Gaerfyrddin: Pobl, Cartrefi a Chymunedau;
- Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio Strategol Sir Gaerfyrddin: 2015-2030;
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ac adolygiad Sir Gaerfyrddin;
- Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru: 2015 - 2020;
- Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru – Datganiad Technegol Rhanbarthol;
- 'Open All Year' – Strategaeth Twristiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru;
- Cynllun Datblygu Gwledig Sir Gaerfyrddin;
- Strategaeth Gymunedol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin;
- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, Cyngor Sir Caerfyrddin;

Yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid o fewn y Sir, mae cysylltu gyda'r awdurdodau cyfagos wedi bod, ac yn parhau i fod, yn nodwedd allweddol ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru, gan chwarae rhan bwysig yn y broses o baratoi'r CDLI a hefyd wrth fabwysiadu'r nifer o oblygiadau newydd sy'n deillio o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae'r Cyngor mewn cyswllt rheolaidd â'r awdurdodau cyfagos, yn unigol ac ar y cyd, ar lefel ranbarthol (trwy Grŵp Cynllunio Rhanbarthol De-orllewin Cymru, sy'n cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Dinas a Sir Abertawe, Sir Benfro, Ceredigion, Powys a Chastell-nedd Port Talbot), i sicrhau bod eu Cynlluniau Datblygu Lleol yn gyson â'i gilydd. Mae rhai ffactorau'n golygu nad oes modd cael cydymffurfiaeth lwyr, ond mae cynhyrchu tystiolaeth ar y cyd, cael trafodaethau adeiladol a rhannu gwybodaeth a phrofiad wedi lleihau'r perygl y byddai polisiau'n gwrthdaro ac wedi sicrhau lefel briodol o integreiddio.

Mae dichonolrwydd cyflwyno Ardoll Seilwaith Cymunedol; Deddf Cynllunio 2008 a Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 wedi cael ei oedi gan y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Deilliodd y penderfyniad hwn o newidiadau yn y cyd-destun cenedlaethol. Yn sgil yr adolygiad a gomisiynwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol - Dull Newydd o gael Cyfraniadau gan Ddatblygwyr i Weinidogion, ynghyd â datganoli'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Cymru 2017, mae'r Cyngor, am y tro, wedi gohirio'r broses o symud yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn ei blaen (penderfynwyd gan y Cyngor ar 20 Medi 2017).

Dylanwadau mawr blaenorol a chyfredol ar ddefnydd tir

Un o briodolddau amlwg y sir yw'r rhaniad rhwng cefn gwlad a threfi sy'n nodweddu'r amrywioldeb mewn aneddiadau, eu rolau hanesyddol a'u rolau yn y dyfodol. Enghraifft o hyn yw'r ardaloedd yn y de-ddwyrain sy'n drefol gan fwyaf, a'u hanghenion ôl-ddiwydiannol yn nhermau adfywio. Yn aml mae'r heriau a wynebwr gan aneddiadau o'r fath yn dra gwahanol eu maint i'r rhai mewn ardaloedd gwledig, sy'n wynebu heriau gwahanol yn ymwneud â diboblogi a newidiadau yn y diwydiant amaethyddol. Mae hyn yn crisialu amrywiaeth cymunedau ac aneddiadau Sir Gaerfyrddin o ran eu cymeriad, eu maint a'u rôl, ac nid yw maint anheddiad yn adlewyrchu ei rôl bob tro. Yn y cyswllt hwn, nid oedd modd seilio dosbarthiad cyfleoedd am dwf ar sail ei safle yn hierarchaeth y CDLI ar ddehongliad syml o ddosbarthiad lle darperir twf, er enghraifft ar draws holl aneddiadau haen 3 yn gyfartal (fel y'u diffinnir gan y CDLI). Yn wir, mae hyn yr un mor berthnasol yn yr Ardaloedd Twf (fel y'u diffinnir gan y CDLI) lle mae gan bob un faterion o bwys ac ystyriaethau gwahanol amlwg sy'n sail i'r potensial ar gyfer twf ond yng nghyd-destun eu pwysigrwydd yn nhermau strategol a'r swyddogaeth maent yn ei chyflawni.

Mae nifer o ystyriaethau sy'n effeithio ar addasrwydd tir ar gyfer datblygiadau ar draws y Sir, yn bennaf llifogydd (mae llawer o'r trefi mwy yn agos i'r môr a/neu afonydd) a chadwraeth natur a dynodiadau (Llanelli/Porth Tywyn a Cross Hands yn arbennig). Ymhellach, mae nifer o ystyriaethau cymdeithasol, gan gynnwys ardaloedd o ddiddordeb ieithyddol o safbwynt y Gymraeg – yn arbennig yng Nghymoedd Gwendraeth ac Aman – y mae angen rhoi sylw iddynt wrth ystyried addasrwydd datblygiadau sy'n cael eu cynnig a'u heffeithiau posibl.

Mae arwyddocâd mynd i'r afael â heriau lleoliad a chynaliadwyedd, sy'n wynebu rhai cymunedau gwledig, wedi cael ei gydnabod drwy'r CDLI a'r hierarchaeth aneddiadau addas. Mae'r gwahanol bolisiâu eithrio yn y CDLI yn ceisio sicrhau bod modd cyflawni twf organig a chynaliadwy mewn ardaloedd gwledig o'r fath, lle bo'n briodol.

Natur hanesyddol/tirweddol yr ardal, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ardaloedd cadwraeth ac ati.

Mae cyfoeth amgylchedd naturiol, adeiledig a diwylliannol Sir Gaerfyrddin yn ystyriaeth ofodol bwysig wrth gynllunio ar gyfer dyfodol y sir, yn arbennig o ran y potensial ar gyfer twf a lleoli datblygiadau mewn modd sensitif. Mae'r Sir yn cynnwys safleoedd sydd wedi'u dynodi ar lefel ryngwladol i warchod a gwella gwerth pwysig o ran cadwraeth natur, yn ogystal â thirweddau trawiadol a threfi a phentrefi hanesyddol â nodweddion unigryw. Mae pwysigrwydd treftadaeth adeiledig y sir yn cael ei danlinellu gan y 27 o ardaloedd cadwraeth dynodedig o fewn ei haneddiadau, 367 o Henebion Rhestredig (nodweddion o ddiddordeb diwylliannol a hanesyddol sy'n amrywio o rai Cynhanesyddol i rai Ôl-ganoloesol/Modern), 4 Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig, 18 o barciau a gerddi hanesyddol a thros 1,800 o adeiladau rhestredig. Ceir hefyd nifer o safleoedd dynodedig o bwysigrwydd cadwraeth natur a bioamrywiaeth, gan gynnwys 8 Ardal Cadwraeth Arbennig, 3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, 1 safle Ramsar (Moryd Byrri), 82 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 5 Gwarchodfa Natur Genedlaethol, 6 Gwarchodfa Natur Leol a 7 tirwedd gofrestrdig.

Newid yn y Boblogaeth a'r Dylanwad ar Faterion Cynllunio

Nododd Cyfrifiad 2011 mai 183,777 oedd poblogaeth Sir Gaerfyrddin, gyda 78,829 o aelwydydd.

Rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011, gwelodd poblogaeth Sir Gaerfyrddin gynnydd o 11,070 a chynyddodd nifer yr aelwydydd o 5,781. Dros yr un cyfnod cafwyd cynnydd o 6,969 uned yn y stoc tai. Mae dosbarthiad y boblogaeth ac aelwydydd ar draws y Sir ar hyn o bryd yn adlewyrchu'n fras y ffurf drefol bresennol a'r cymunedau sefydledig.

Wrth baratoi ei Gynllun Datblygu Lleol presennol, datblygodd y Cyngor senario diwygiedig ar gyfer newid o ran y boblogaeth ac aelwydydd. Defnyddiodd hwn dystiolaeth wedi'i diweddarau i ddeillio'r rhagdybiaethau am ffrydiau mudo yn y dyfodol, ond sicrhodd gydbwysedd rhwng y mudo net uchel iawn a welwyd yng nghanol y degawd a'r sefyllfa yn 2009 pan gofnodwyd y mudo net isaf i Sir Gaerfyrddin ers 1993, ynghyd â'r holl ffynonellau data oedd ar gael ac oedd wedi'u cyhoeddi ers amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008. Rhoddwyd ystyriaeth i oblygiadau'r amcanestyniadau aelwydydd Awdurdodau Lleol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2011 a'r gostyngiad rhagamcanol a nodwyd yn yr amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2011 yn erbyn cyd-destun strategol y CDLI a'i amcanion. O ganlyniad, mae'r Cynllun wedi'i seilio ar ddyheadau o ran twf gyda gofyniad dynodedig o ran tai o 15,197 o anheddau dros gyfnod y cynllun hyd at 2021.

Mae'r awdurdod wedi cynhyrchu set newydd o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLI Diwygiedig – bydd y rhain yn cael eu hystyried mewn archwiliad cyhoeddus yn ystod 2020/21.

Y GWASANAETH CYNLLUNIO

Y Gwasanaeth a'i leoliad o fewn y Cyngor


Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnwys chwe Adran sy'n adrodd yn uniongyrchol wrth y Prif Weithredwr. Mae pob Adran yn gyfrifol am nifer o Wasanaethau, ac mae gan bob maes Gwasanaeth Bennaeth Gwasanaeth.

Mae strwythur Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin i'w weld yn Ffigur A.


Lleolir y Gwasanaeth Cynllunio yn Adran yr Amgylchedd, yr un adran â Phrifyrdd a Thrafnidiaeth, Eiddo a Gwastraff a Gwasanaethau Amgylcheddol.

Mae Ffigur B isod yn cyflwyno strwythur y Gwasanaeth Cynllunio. Fel y gwelir, mae'r Gwasanaeth wedi'i rannu'n chwe swyddogaeth ar wahân (unedau busnes), gyda Rheolwr Busnes ar bob un ohonynt, sydd fel ei gilydd yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Pennaeth Cynllunio.

Ffigur A: Strwythur Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019



Ffigur B: Strwythur y Gwasanaeth Cynllunio, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019



Lleolir y Gwasanaeth Cynllunio yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Llandeilo, a hynny ar chwe safle ar wahân fel a ganlyn, er bod y rhan fwyaf o'r staff hefyd yn manteisio ar y cyfle i weithio'n fwy ystwyth, yn unol â Pholisi Gweithio Ystwyth y Cyngor:

Pennaeth Cynllunio

Lleolir y Pennaeth Cynllunio, ynghyd â thri aelod o staff cymorth, yn Heol Spilman, Caerfyrddin.

Cadwraeth Wledig

Mae'r Tîm Cadwraeth Wledig wedi'i leoli'n bennaf yng Nghaerfyrddin (Heol Spilman) a Llandeilo (Swyddfeydd y Cyngor). Mae gan y Tîm gynrychiolaeth hefyd ger Cross Hands er mwyn rheoli prosiect Caeau'r Mynydd Mawr.

Mwynau a Gwastraff

Mae canolfan y Tîm Mwynau a Gwastraff yn Llandeilo - er eu bod yn gweithio'n bennaf ar safleoedd yn sgil natur eu dyletswyddau sy'n cynnwys cyflawni'r swyddogaeth Mwynau a Gwastraff ar gyfer nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Ne Cymru.

Rheoli Datblygu a Threftadaeth Adeiledig

Ar hyn o bryd mae gan y swyddogaeth Rheoli Datblygu, sy'n cynnwys Gorfodi Rheolau Cynllunio a Threftadaeth Adeiledig, bedwar tîm ar wahân. Rhennir y swyddogaeth Rheoli Datblygu rhwng dwy ardal ddaearyddol gyda thîm o swyddogion cyfrifol ar gyfer pob ardal. Lleolir y ddau dîm yma yn Llanelli a Llandeilo. Lleolir y tîm Gorfodi yn Nghaerfyrddin, a lleolir y tîm Treftadaeth Adeiledig yng Nghanolfan Tywi, Llandeilo. Y canolbwynt gweinyddol ar gyfer cofrestru pob cais cynllunio a rheoli data yw Llandeilo.

Rheoli Adeiladu

Mae gan y tîm Rheoli Adeiladu hefyd bresenoldeb mewn tri lleoliad, sef Llanelli, Llandeilo a Chaerfyrddin, gyda Heol Spilman yn gweithredu fel y ganolfan ar gyfer fetio cynlluniau. Caiff y manteision o gydleoli'r timau Rheoli Adeiladu a Rheoli Datblygu eu cydnabod yn eang gan y swyddogion.

Blaen-gynllunio

Blaen-gynllunio yw'r unig swyddogaeth sydd wedi'i lleoli'n gyfan gwbl yn Heol Spilman, Caerfyrddin.

Gweithgareddau sefydliadol ehangach sy'n effeithio ar y gwasanaeth

Mae'r Gwasanaeth wedi nodi arbedion Cyllidebu ar Sail Blaenoriaeth ar gyfer cyfnod o dair blynedd o ryw £200,000 dros y tair blynedd nesaf (2018 - 2021). Mae eisoes wedi gwneud arbedion dros y cyfnod 2013/15, gan golli 8 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn o ganlyniad i derfynu cyflogaeth yn wirfoddol.

Cynhaliwyd adolygiad mewnol o'r Uned Rheoli Datblygu yn 2015, gyda phwyslais ar gyflwyno her trwy 'Feddwl trwy Systemau'. Mae hyn wedi arwain at ailgynllunio'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau/systemau, ac erbyn hyn mae'n cael ei gyflwyno mewn meysydd eraill yn y Gwasanaeth – Mwynau a Gwastraff a Gorfodi. Mae'r broses hon o adolygu yn cynnwys y gallu i herio ac archwilio ymhellach yn gyson, er mwyn sicrhau bod y system a'r gwasanaeth yn parhau i fod yn gyfredol a pherthnasol. Mae'r egwyddorion cyffredinol wrth wraidd hyn yn cynnwys yr angen am ymgysylltu cynnar ac yn pwysleisio pwysigrwydd ymgorffori ansawdd mewn cynigion mor gynnar â phosibl yn y broses. Nodir bod hyn yn cyd-fynd â rhai o egwyddorion sylfaenol agenda Cynllunio Cadarnhaol Llywodraeth Cymru.

Ers nifer o flynyddoedd bellach, mae'r tîm Mwynau a Gwastraff wedi sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth gyda nifer o ALLau eraill yng ngorllewin Cymru. Yr Awdurdodau Lleol yw:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro;
- Cyngor Sir Penfro;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Powys;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;
- Cyngor Bro Morgannwg ac
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Mae ffurf y rhain yn amrywio, ond maent i gyd yn cynnwys holl anghenion, neu gyfuniad o anghenion, yr ALLau hynny o ran monitro, polisi cynllunio, ceisiadau cynllunio a gorfodi mewn perthynas â materion Mwynau a Gwastraff.

Ceir grŵp gorfodi aml-ddisgyblaethol sy'n cwrdd bob chwarter dan gadeiryddiaeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am yr holl faterion gorfodi.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio ar hyn o bryd yn gweithio gyda darparwr ar gyfer datblygu system 'cefn swyddfa' newydd sy'n seiliedig ar gwmwl. Dylai'r system newydd hon ganiatáu mwy o hyblygrwydd a darparu cyfleoedd i ymgymryd â datblygiadau pwrpasol yn fewnol. Mae'r system hefyd yn cynnig cyfle sydd â mwy o ffocws ar gyfer mesur perfformiad. Dylai system newydd hon fod ar waith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cyllideb weithredu:

Dangosir y gwir incwm o ffioedd Ceisiadau Cynllunio yn erbyn y ffigur yn y gyllideb yn Nhabl 1 isod. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n cadw ei incwm o ffioedd er, fel y dengys y ffigurau isod, mae anghysondeb rhwng yr incwm wedi'i gyllidebu a'r gwir incwm. Mae hwn yn ffactor allweddol wrth bennu'r gyllideb weithredu flynyddol.

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Incwm wedi'i gyllidebu	£1,261,153	£1,248,542	£1,248,542	£1,249,895	£1,265,206	£1,258,607
Gwir incwm	£1,318,182	£1,145,985	£1,149,517	£734,216	£863,983	£888,440

Staffio, fel ar 31 Mawrth 2019:

Mae'r canlynol yn disgrifio'r sefyllfa staffio ar gyfer cyfnod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

Caiff yr **Uned Rheoli Datblygu a Threftadaeth Adeiledig** yn y Gwasanaeth Cynllunio ei rheoli gan Reolwr Rheoli Datblygu a Threftadaeth Adeiledig, sydd â chyfrifoldeb rheolwr llinell uniongyrchol am bedwar Uwch Swyddog. Y pedwar tîm yw'r ddau dîm Rheoli Datblygu (12 swyddog i gyd), un tîm Gorfodi (5.6 swyddog) ac un tîm Treftadaeth Adeiledig (5 swyddog, gyda thri ohonynt ar gontractau tymor penodol).

Caiff yr Uned gymorth technegol gan yr **Uned Gwybodaeth a Systemau** dan arweiniad y Rheolwr Gwybodaeth a Systemau. Mae'r cymorth hwn ar ffurf cofrestru ceisiadau cynllunio, cwynion gorfodi, ac apeliadau, diweddaru cronfeydd data/GIS, sganio gwybodaeth/cynlluniau, yn ogystal â chynnal Chwiliadau Tir a delio â cheisiadau Enwi a Rhifo Strydoedd. Mae'r tîm hefyd yn gyfrifol am yr holl waith datblygu technoleg gwybodaeth sy'n ymwneud â Chynllunio ac am gynnal a chadw'r wefan a'i diweddaru. Yn ogystal â'r rheolwr ceir 5.8 Swyddog Cofrestru/Chwiliadau (x1 wedi'i ariannu gan SAB), 2.6 Cynorthwywr Gwybodaeth a Rheoli Datblygu cyfwerth ag amser llawn, a 4.6 swydd Rheoli Gwybodaeth cyfwerth ag amser llawn.

Mae'r **Uned Flaen-gynllunio** yn cynnwys Rheolwr Blaen-gynllunio ynghyd â 5 Swyddog Blaen-gynllunio sy'n ymdrin â phob agwedd ar Bolisi Cynllunio, gan gynnwys polisi'r cynllun datblygu, Canllawiau Cynllunio Atodol, mentrau cyflenwi safleoedd a monitro, gan gynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol, Gwastraff Rhanbarthol a'r Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai.

Yn ogystal ceir Swyddog Gweithredu a Monitro sy'n gyfrifol am faterion sy'n gysylltiedig â chyfraniadau adran 106 a'r defnydd o arian a gesglir trwy gytundeb cyfreithiol.

Cefnogir yr Uned gan 3 swyddog cymorth a graffeg/technegol sy'n gofalu am faterion megis ymgynghoriadau, graffeg a chyhoeddiadau.

Ar hyn o bryd mae yna 8 aelod o staff yn gweithio yn yr Uned **Mwynau a Gwastraff**; gan gynnwys syrfëwr graddedig a benodwyd ar gontract dwy flynedd hyd at Chwefror 2020. Mae'r Uned yn darparu gwasanaethau cynllunio mwynau a gwastraff i Sir Gaerfyrddin ac i saith Awdurdod Cynllunio Lleol arall o dan Gytundebau Lefel Gwasanaeth, a restrwyd eisoes.

Mae trafodaethau ynglŷn â darparu gwasanaethau cynllunio mwynau a gwastraff i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Sir Ceredigion wedi cyrraedd cam datblygedig, a rhagwelir y ceir ymrwymiad i Gytundebau Lefel Gwasanaeth yn gynnwys yn 2019-20.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd yn gwneud defnydd helaeth o arbenigedd a mewnbwn y **Tîm Cadwraeth Wledig** yn y Gwasanaeth Cynllunio (10 swyddog i gyd, nad yw pob un yn amser llawn, gyda dau ohonynt ar gontractau am gyfnod penodol). Mae materion cynllunio yn mynd â llawer o amser y Swyddogion Ecoleg a Thirwedd. Mae'r swyddogion eraill sy'n aelodau o'r tîm hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at y broses gynllunio. Mae gan y tîm ddwy swydd Ecoleg ar hyn o bryd.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf y Pen Swyddogion sydd wedi bod yn rheoli'r Uned Rheoli Adeiladu ar y cyd, a hynny dros dro. Mae Pennaeth y Gwasanaeth yn ystyried adolygu hyn i sicrhau bod gan yr Uned un pwynt cyswllt a chyfrifoldeb gyda golwg ar faterion rheoli. Mae Pennaeth y Gwasanaeth hefyd yn gweithio gyda'r ddau Ben Swyddog ar gynllunio olyniaeth er mwyn nodi newidiadau yn y strwythur presennol, fel bod modd gwella cydnherthedd y gwasanaeth ond hefyd i ddarparu cyfleoedd i staff iau er mwyn iddynt symud ymlaen. Bydd y newidiadau hyn yn digwydd tua diwedd 2019.

Mae holl Reolwyr yr Uned Fusnes yn deall gwerth cyfleoedd hyfforddi sy'n cefnogi nodau'r busnes ac ar yr un pryd caniatáu camu ymlaen a datblygu gyrfa, ac yn hyrwyddo'r cyfleoedd hynny. Enghraifft sefydledig o hyn yw'r swydd raddedig, er y darperir cyfleoedd eraill trwy gyrsgiau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth, a phrosiectau mewnol fel y Rhaglen Gwelliant Parhaus a Rhaglen Arweinwyr y Dyfodol.

Caiff yr holl staff arfarniad blynyddol a chyfarfodydd un i un rheolaidd â rheolwyr. Trefnir seminarau hyfforddi mewnol yn rheolaidd (3 neu 4 y flwyddyn) sy'n cyfrif tuag at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae'r portffolio hefyd yn cefnogi ac yn cynnal sesiynau hyfforddi a datblygu i aelodau eraill o'r staff, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymunedol, gan adeiladu ar brofiadau a gwersi a ddysgwyd. Nid yw'r Cyngor Sir yn talu ffioedd aelodaeth sefydliadau proffesiynol.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gweithredu seminarau asiant rheolaidd, gyda hyn yn cael ei ystyried yn arbennig o berthnasol yn yr amseroedd mwy diweddar o newid deddfwriaethol. Mae'r seminarau hyn yn cynnig cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus i'r asiantau ac maent yn digwydd ddwywaith y flwyddyn.

Ein Stori leol:

Y Llwyth Gwaith: Rheoli Datblygu

At ei gilydd mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal perfformiad cyffredinol lle penderfynir ar 71% o bob math o geisiadau Cynllunio o fewn yr amser penderfynu. Mae'r adolygiad mewnol parhaus wedi cael rhywfaint o effaith drwy fod pobl yn dod i ddeall systemau ac arferion newydd. Ehangwyd hyn yn ddiweddar trwy gychwyn ar adolygiad TIC mewnol o'r swyddogaeth Orfodi, ac mae'r arolwg hwn yn ceisio adrodd yn ôl gan roi argymhellion o fewn cyfnod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol nesaf.

Yn ogystal, mae'r adolygiadau sefydledig parhaus wedi cael eu mireinio a'u hehangu i ddelio, o dan Fwrdd Gwella Gwasanaethau, â phynciau a materion sy'n ymwneud â phrosiectau penodol, e.e. symleiddio a fformatio adroddiadau pwyllgorau. Mae'r adolygiad hwn sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol, a arweiniwyd gan y rheiny sy'n darparu'r gwasanaeth, wedi llwyddo i nodi meysydd blaenoriaeth. Bydd yn parhau i fod yn gyfrwng pwysig er mwyn ysgogi gwelliannau i wasanaethau, gan ddeall yr hyn y mae ein cwsmeriaid yn ei ddweud wrthym.

Tabl 2: Nifer y ceisiadau cynllunio y mae'r Awdurdod yn ymdrin â hwy bob blwyddyn

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Nifer y ceisiadau	1905	1907	1663	1414	1360	1407

Rhyw 140 fydd nifer y ceisiadau i bob swyddog, yn gyffredinol iawn. Rhagwelir y ffigur hwnnw ar y sail fod gan y ddau Uwch Swyddog lwyth achosion cyfyngedig iawn a bod ganddynt fwy o rôl o oruchwylio a mentora.

Mae elfen Rheoli Datblygu'r gwasanaeth yn adlewyrchu natur amrywiol Sir Gaerfyrddin o ran yr ardaloedd gwledig yn y gogledd a'r gorllewin, y nifer fawr o drefi marchnad hanesyddol sydd wedi'u gwasgaru ar hyd a lled y sir, a'r ardaloedd ôl-ddiwydiannol yn y de a'r dwyrain, gyda'u hen byllau glo a gweithfeydd dur. Mae'r amrywiaeth hon, sy'n cynhyrchu'r nifer fwyaf ond dwy o geisiadau i Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru, yn digwydd mewn ardal ddaearyddol helaeth; ardal weinyddol y Sir yw'r un fwyaf ond dwy, gyda'r boblogaeth fwyaf ond tair, yng Nghymru. Er bod y swyddogaeth yn ymdrin â niferoedd uchel o Geisiadau Cynllunio, mae'r ganran o geisiadau gan ddeiliaid tai yn gymharol isel (ychydig yn fwy na 20% dros y ddwy flynedd ddiwethaf), gan adlewyrchu'r nifer fwy o fân geisiadau a geir yn yr ardaloedd gwledig, yn ogystal â'r cynigion ar gyfer datblygu mwy ar y safleoedd strategol o bwys rhanbarthol yng Nghaerfyrddin, Cross Hands a Llanelli, fel y nodir yn y CDLI mabwysiedig.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddeall effeithiau'r modd y mae'n darparu gwasanaethau ar breswylwyr ac, fel y soniwyd, mae'n edrych ar ffyrdd gwahanol o'u mesur, i'r graddau ei fod yn ceisio deall a mesur yn well yr amser o'r dechrau i'r diwedd i'r cwsmer. Mae yna ymrwymiad i leihau nifer y ceisiadau anghyflawn ac aflwyddiannus, ac i sicrhau dull sy'n gyson gadarnhaol a phragmatig o ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr arolygon cwsmeriaid lle mae Sir Gaerfyrddin yn cael sgôr uwch na chyfartaledd Cymru mewn meysydd fel argaeledd swyddogion cynllunio i drafod materion cyn cyflwyno cais, cael cyfleoedd i ddiwygio cynigion cyn penderfynu arnynt, a dealltwriaeth o'r wybodaeth y mae ei hangen.

O gofio'r llwyth gwaith ychwanegol, er mwyn gwella effeithiolrwydd mae'r Uned yn treialu gwahanol opsiynau o ran gweithio'n ystwyth a fydd yn lleihau amser teithio, yn lleihau gwastraff ac yn lleihau gofynion o ran gofod swyddfa. Bydd hyn yn galw am fuddsoddi mewn digideiddio data ac mewn meddalwedd gweithio ystwyth sy'n integreiddio â'r systemau swyddfa gefn presennol.

Mae'r maes gwasanaeth yng nghanol cyfnod o newid, ac yn ceisio ymaddasu i hynny o ran ei systemau a'i brosesau, a hybu newid ymddygiad er mwyn hwyluso datblygu economaidd ac adfywio lle bo'n briodol. Mae pryderon o hyd y bydd y camau gweithredu cadarnhaol mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn eu cymryd ar hyn o bryd yn cael eu herio'n afresymol gan bwysau cyllidebol yn y blynnyddoedd nesaf. Nodwyd rhaglen arbedion ac effeithiolrwydd am

dair blynedd arall (2018 - 2021), ac mae'r adolygiad gwasanaeth, y mae hon yn ei lywio i ryw raddau, hefyd yn galluogi i'r arbedion hyn gael eu cyflwyno a'u gwireddu. Gall newidiadau i'r Uned hon effeithio'n sylweddol ac yn negyddol ar yr agenda perfformiad a ddilynir gan yr Awdurdod.

Mae'r Tîm Treftadaeth Adeiledig wedi bod yn ymsefydlu dros y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn y gwaith ailstrwythuro a gwblhawyd ym mis Medi 2017 ac a sefydlodd y tîm newydd hwn. Mae gan un o'r Swyddogion ddirprwyaeth mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig. Mae swydd Swyddog Sgiliau a Phrosiectau Treftadaeth wedi sefydlu achos busnes ar gyfer darparu cyngor a hyfforddiant arbenigol mewn perthynas â threftadaeth adeiledig, a ph'un a allai rôl o'r fath ei hariannu ei hun ai peidio. Mae'r swyddog hwn wedi dechrau darparu ystod eang o gyrsgau hyfforddiant ac addysg i gynorthwyo rhanddeiliaid o bob rhan o Sir Gaerfyrddin ac yn ehangach ledled Cymru. Mae'r swydd Hyfforddwr ac Asesydd Sgiliau Adeiladu Treftadaeth wedi'i llenwi ac mae bellach yn darparu cyrsiau ac asesiadau adeiladu treftadaeth arbenigol a nodir gan y Swyddog Sgiliau a Phrosiectau Treftadaeth. Mae'r swyddog hwnnw hefyd ar hyn o bryd yn cynnal Ymgynghoriadau Cadwraeth Adeiladau Rhestredig ar ran awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Daeth y prosiect Treftadaeth Ysgolion Sir Gaerfyrddin Wledig, a estynnwyd i ysgolion yn Hwlfordd, i ben ym mis Mawrth 2019. Roedd y prosiect hwn yn darparu addysg treftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig i ysgolion yn y rhanbarth, a threfnodd fod cyfres o adnoddau ystafell ddosbarth ar gael trwy'r Hwb fel bod modd integreiddio treftadaeth ym mhob elfen o gwricwlwm yr ysgolion cynradd.

Mae'r Tîm Treftadaeth Adeiledig hefyd yn gweithio gyda chyfres o bartneriaid o'r diwydiant a chyda Cadw i gyflwyno prosiect proffil uchel 4 blynedd o hyd o'r enw Treftadaeth Adeiledig yng Nghymru, a lleolir swyddog cyflwyno'r prosiect gyda'r Tîm Treftadaeth Adeiledig yng Nghanolfan Tywi.

Y Llwyth Gwaith: Blaen-gynllunio

Mae'r angen parhaus i gynnal portffolio tystiolaeth cyfredol yn hollbwysig nid yn unig o safbwynt Blaen-gynllunio a'r CDLI, ond hefyd er mwyn sicrhau y darperir y wybodaeth lawn ar gyfer gwneud penderfyniadau a gofynion ymgeiswyr/datblygwyr. Mae angen mynd ati'n barhaus i adolygu, dehongli a pharatoi tystiolaeth graidd, ac i sicrhau ei bod yn gadarn ac yn gwrthsefyll cael ei harchwilio - hyd yn oed yn fwy yn awr wrth i'r Uned symud yn ei blaen gyda'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig. Bydd yr angen i gyflogi ymgynghorwyr arbenigol yn parhau ar ryw ffurf, er gwaethaf y ffaith fod y Gwasanaeth yn gwneud cymaint â phosibl o'r gwaith tystiolaeth yn fewnol. Caiff pwysigrwydd cysylltu â gwaith rhanbarthol ei adlewyrchu yn y gwaith o ddatblygu tystiolaeth ar y cyd ar draws y rhanbarth, ond hefyd ar sail is-ranbarthol. Yn y cyswllt hwn mae'r Uned Blaen-gynllunio wedi ceisio gweithio'n agos gydag awdurdodau eraill yn y rhanbarth i ddatblygu tystiolaeth ac arferion gweithio ar y cyd. Mae hyn nid yn unig yn arwain at arbedion ariannol ond hefyd at ddull integredig sy'n darparu mwy o gysondeb a pharhad wrth wneud penderfyniadau a llunio polisiau ar draws y rhanbarth. Mae gwaith o'r fath yn cynnwys cydweithio ar: Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, Pecyn Cymorth Hyfywedd Tai Fforddiadwy, Adolygiad Cyflogaeth Fwy Na Lleol ac Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd.

Tra bod y CDLI yn gosod cyfeiriad polisi cryf ar gyfer darpariaeth adwerthu yn Sir Gaerfyrddin, mae angen rhoi ystyriaeth benodol i'r heriau sy'n wynebu Canol Tref Llanelli. Yn hyn o beth, ac i gydnabod y cyfleoedd sy'n bodoli i gydlynu a datblygu mentrau adfywio yng nghanol y dref a sefydlu 'Tasglu' i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'i dirywiad, mae'r uned wedi

paratoi ac yn gweithredu Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer canol y dref. Mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol hwn yn ceisio mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag unedau gwag a gweithgarwch ar loriau gwaelod a lloriau uchaf, ac archwilio'r posibilrwydd o wneud defnydd amgen ohonynt o fewn rhan o Ganol Tref Llanelli.

Mae'r Uned yn gyfrifol am weinyddu a defnyddio arian a sicrhau drwy rwymedigaethau cynllunio (gan gynnwys cytundebau Adran 106). Mae'n ystyried ac yn penderfynu ar geisiadau i ddefnyddio arian er mwyn ymgynghori ar gynigion ac yn pennu a ydynt yn gyson ac yn cydymffurfio â'r cytundeb a phenawdau'r telerau. Mae hyn yn gofyn am berthynas waith agos ar draws ystod o feysydd gwasanaeth gan gynnwys drwy weithgor sefydledig Adran 106 a'r Grŵp Llywio Asedau Strategol.

Mae'r Uned Flaen-gynllunio hefyd yn mynd ati i baratoi'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, yn flynyddol, ar gyfer ardal Sir Gaerfyrddin, ac eithrio'r ardal sydd o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae'r Uned, hefyd ar y cyd â'r Tîm Mwynau a Gwastraff, yn gweithredu fel awdurdod arweiniol wrth baratoi'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru.

Y Llwyth Gwaith: Mwynau a Gwastraff

Mae'r galw am wasanaethau Mwynau a Gwastraff yn cynyddu oherwydd colli personél allweddol mewn Awdurdodau eraill, sy'n ychwanegu at y pwysau ar adnoddau staff presennol Cyngor Sir Gaerfyrddin yn yr Uned Mwynau a Gwastraff. Disgwylir i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Sir Ceredigion ddod i rym ym mis Mai 2019 ac mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr bron wedi'i gwblhau. Mae'r rhain yn ychwanegol at y rhai sydd gan yr Uned eisoes.

Yr Uned sy'n darparu'r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru; ariennir hyn gan grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r Uned, ar y cyd ag Uned Flaen-gynllunio'r Cyngor, hefyd yn gweithredu fel yr Awdurdod Arweiniol ar gyfer monitro'r gwaith o gynllunio gwastraff yn rhanbarth De-orllewin Cymru yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae Adroddiad 2017/18 wedi ei gynhyrchu a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith o gynhyrchu adroddiad 2018/19 wedi dechrau.

O gofio'r llwyth gwaith ychwanegol, er mwyn gwella effeithiolrwydd mae'r Uned yn ymchwilio i wahanol opsiynau o ran gweithio'n ystwyth a fydd yn lleihau amser teithio, yn lleihau gwastraff ac yn lleihau gofynion o ran gofod swyddfa. Bydd hyn yn galw am fuddsoddi mewn digideiddio data ac mewn meddalwedd gweithio ystwyth sy'n integreiddio â'r systemau swyddfa gefn presennol.

Y Llwyth Gwaith: Cadwraeth Wledig

Tirweddau Sir Gaerfyrddin a'i chynefinoedd a'i rhywogaethau yw rhai o adnoddau naturiol pwysigaf y sir. Maent yn ffurfio'r seilwaith gwyrdd sy'n darparu fframwaith ar gyfer ein hiechyd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r Uned yn hyrwyddo dealltwriaeth o'r adnoddau hyn, ynghyd â'u gwarchod, eu gwella a'u rheoli'n gyfrifol.

Mae'r uned yn darparu cyngor i'r Uned Rheoli Datblygu, adrannau eraill y Cyngor a'r cyhoedd yn gyffredinol ynglŷn â thirwedd, coed, coetiroedd, gwrychoedd, bioamrywiaeth, tir comin ac

ar ddatblygu o fewn ardal [Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr](#). Mae hefyd yn allweddol o ran sicrhau bod datblygiadau a gymeradwywyd a phrosiectau eraill yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a pholisïau'r CDLI sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol. Mae'r swyddog Bioamrywiaeth yn hwyluso Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin a'r gwaith o ddatblygu ei Chynllun Adfer Natur, a bydd hyn o gymorth i gyflawni amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru.

Mae'r Uned Fusnes Cadwraeth Wledig yn cyflawni'r swyddogaethau statudol canlynol:

- Gorchmynion Cadw Coed - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999;
- Rheoliadau Perthi 1997; a
- Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965.

Erbyn hyn mae'r Uned yn gweithio gydag adrannau eraill o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau bod gweithrediadau'r Cyngor yn cydymffurfio o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a bod y Cyngor yn adrodd wrth Lywodraeth Cymru fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf hon. Cafodd Blaen-gynllun y Cyngor mewn perthynas â Deddf yr Amgylchedd ei gwblhau ym mis Mawrth 2017 a bellach caiff ei fonitro'n fewnol gan y Cyngor.

Mae'r Uned hefyd yn cydlynu ymateb y Cyngor i Glefyd Coed Ynn.

Y Llwyth Gwaith: Rheoli Adeiladu

Mae'r Uned wedi cynnal ei statws fel Ymgynghoriaeth Adeilad Siartredig CIOB ac mae wedi sefydlu rhwydwaith o fwy na [75 o bartneriaid lleol](#) gan gynnwys asiantau, ymgynghorwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes adeiladu i sicrhau bod gwasanaeth o safon uchel yn cael ei ddarparu. Mewn cydweithrediad â Choleg Sir Gâr, cynhelir seminarau/gweithdai hyfforddiant yn rheolaidd er budd cwsmeriaid er mwyn darparu cyngor a chymorth i ddeall a dehongli'r newidiadau presennol ac arfaethedig i ddeddfwriaeth.

Mae'r Uned hefyd wedi cynhyrchu llawlyfr 'Canllaw i ymestyn eich cartref'. Bwriad y canllaw, sydd ar gael yn ddwyieithog ac mewn fformat electronig, yw rhoi cyngor am brosiectau adeiladu ar raddfa fach megis estyniadau, addasu garej, addasu atig, newidiadau strwythurol ynghyd â phrosiectau nodweddiadol eraill ar raddfa fach.

Prosiectau cyfredol

Adolygiadau Gwasanaeth - Mae'r adrannau uchod wedi cyfeirio at yr adolygiadau gwasanaeth mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'u cynnal yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel rhan o raglen dreigl, barhaus o wirio, cynllunio ac adolygu. Mae effeithiau hyn wedi bod yn arwyddocaol yn nhermau gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei phrosesu a'i rhannu, a hefyd deall beth mae'r cwsmer yn ei ddisgwyl o ran amseroldeb ac ansawdd darparu'r gwasanaeth a gwneud penderfyniadau.

Fel rhan o'r adolygiadau parhaus, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ystyried sut orau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghoreion, gyda phwyslais penodol ar hyn o bryd ar natur ac amseroldeb ymatebion mewnol/allanol i ymgynghoriadau. Fel y nodwyd, gwneir hyn, i ryw raddau, trwy gynnwys y partion perthnasol cyn gynted ag sy'n bosibl yn y broses cyn cyflwyno cais, a'r bwriad yw ffurfioli hyn (yn unol â rhestr taliadau) yn ddull trawsadrannol/asiantaethol o dan faner y Tîm Datblygu.

Gorllewin Caerfyrddin - Mae'r dull Tîm hwn wedi digwydd i ryw raddau (heb ei ffurfioli) i helpu i gyflawni safle strategol pwysig ar ymyl gorllewinol Caerfyrddin. Mae'r safle yn destun Canllaw Cynllunio Atodol mabwysiedig ar ffurf Cyfarwyddyd Cynllunio a Datblygu a fydd yn arwain at ddarparu 1100 + anheddau ac ysgol newydd, yn ogystal â gwella'r seilwaith ffyrdd yn sylweddol. Bydd hyn hefyd o fudd i ddyheadau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yn ogystal â datblygu pencadlys S4C sydd bron wedi'i gwblhau.

Datblygiad Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli - Mae hwn yn brosiect arwyddocaol yn rhanbarthol sydd wedi arwain at fod y tîm Cynllunio yn arwain mewn dull cydweithredol er mwyn cyflawni datblygiad strategol mawr sy'n un o brosiectau conglfaen Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae'r cynnig yn cynnwys darparu Canolfan Iechyd Cymuned (Sefydliad Gwyddor Bywyd, Canolfan Addysg Llesiant a Chanolfan Darpariaeth Glinigol), Sefydliadau Amhreswyl (Ymchwil a Datblygu Busnes), Canolfan Fusnes Gwyddor Bywyd, Canolfan Llesiant (gan gynnwys canolfan ymwelwyr a chyfleusterau cymunedol, hamdden a chwaraeon), Cyfleusterau Cymorth Byw (gan gynnwys gofal preswyl, tai gofal ychwanegol, ac adsefydlu clinigol), Llecyn Hamdden Awyr Agored Cysylltiedig, Lleoedd Hamdden a Therapi; Tirlunio a Llecynnau Cyhoeddus; Seilwaith Cyfleustodau ac Ynni; a Mynediad a Lleoedd Parcio ar dir yn Llynnoedd Delta yn Llanelli. Mae'r cynnig datblygu hwn, sy'n cwmpasu tua 23 hectar, yn ceisio darparu'r cyfleusterau uchod fel eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar wella ansawdd bywyd pobl, gwella iechyd a/neu ddarparu cyfleoedd ymchwil o fewn yr ardal iechyd rhanbarthol ehangach.

Llwybr Dyffryn Tywi - Mae'r Awdurdod Cynllunio yn ymwneud â'r prosiect hwn sydd o arwyddocâd lleol ac sydd ar y gweill wrth i'r hen reilffordd rhwng Caerfyrddin a Llandeilo gael ei hadfywio yn atyniad hamdden o bwys ac yn atyniad i ymwelwyr. Bydd yn darparu llwybr di-draffig trwy un o ardaloedd harddaf Cymru, gan ddilyn llwybr sy'n cydreddeg i raddau helaeth iawn ag afon Tywi wrth iddi lifo o Llandeilo i Gaerfyrddin ar ei ffordd i Fae Caerfyrddin. Bydd y llwybr yn cysylltu ag atyniadau twristaidd pwysig gan arwain at fanteision o ran twristiaeth a datblygiad economaidd, a bydd hefyd yn rhoi'r opsiwn i bobl gael teithio mewn modd cynaliadwy ac iach, gan gysylltu â phentrefi rhwng y ddwy brif dref. Mae'r cynllun wedi'i rannu'n wahanol gamau; mae'r pen gorllewinol (rhwng Abergwili a Nantgaredig) wedi'i rannu'n bedwar cam a fydd yn cael eu datblygu'n raddol, a rhoddwyd caniatâd cynllunio eisoes ar gyfer hyn. Bydd y pen dwyreiniol yn ffurfio'r sail ar gyfer cyflwyniad pellach i'r Awdurdod Cynllunio ac mae'n debygol o gynnwys cysylltiadau oddi ar yr A483 heibio i Ysgol Bro Dinefwr. Gan ddibynnu ar y dyluniad terfynol a'r opsiynau o ran cysylltu ar bob pen, bydd Llwybr Dyffryn Tywi tua 16 milltir o hyd. Bydd y llwybr yn 3m o led gydag arwyneb wedi'i darmacio a bydd yn darparu llwybr cyswllt amldefnydd e.e. beicwyr a cherddwyr.

Tasglu - Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn rhoi cyngor fel rhan o'r Tasglu aml-wasanaeth a grëwyd i ystyried materion yn ymwneud â canol trefi Rhydaman a Llanelli. Mewn perthynas â Llanelli mae hyn yn cynnwys y Gorchymyn Datblygu Lleol i ddelio â materion penodol yng nghanol y dref.

Fel y cyfeiriwyd ato, mae gan y Gwasanaeth gysylltiadau cryf â strategaeth adfywio'r Cyngor a'r tîm adfywio. Bydd y berthynas waith agos hon yn sicrhau y caiff cynigion eu cyflawni mewn modd cyson a chydlynol, yn unol ag egwyddorion cynllunio cadarn a pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol.

TG - Mae'r gwaith yn mynd rhagddo tuag at weithredu ein system cefn swyddfa newydd sy'n seiliedig ar gwmwl. Bydd y cynnyrch yn ein galluogi i reoli'r broses gynllunio ac ôl-gynllunio a rheoli achosion o'r dechrau i'r diwedd, yn ogystal â'r prosesau sy'n ymwneud â gorfodi

rheolau cynllunio, apeliadau, rhwymedigaethau cynllunio, ymholiadau cyn cyflwyno cais, ceisiadau ac arolygiadau Rheoli Adeiladu, dymchweliadau, adeileddau peryglus, enwi a rhifo strydoedd a gweithgareddau Systemau Draenio Cynaliadwy/SAB.

Mae'r meddalwedd yn ein galluogi i weithio gyda'r cyflenwr i deilwra'n bwrpasol yn seiliedig ar ein gofynion busnes a deddfwriaethol, sydd o fudd mawr.

Gall y system newydd hefyd dyfu a datblygu gyda'n gofynion cyfnewidiol, felly gellir cyflwyno strategaeth ddigidol ehangach drwy un system, gan gyfuno gwybodaeth a lleihau cymhlethdod.

Prosiect Caeau'r Mynydd Mawr - Mae ardal Cross Hands wedi'i dynodi fel un o'r tair canolfan dwf yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin. Mae'r ardal hefyd yn gynefin addas ar gyfer iâr fach yr haf Britheg y Gors, sy'n nodwedd ar Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Caeau'r Mynydd Mawr. Wrth weithredu'r prosiect mae'r Swyddog Prosiect Cadwraeth yn helpu i gyflawni amcanion economaidd allweddol gan sicrhau bod y datblygu yn cydymffurfio â deddfwriaeth yr UE. Cyllidir y swydd gan dderbynebaw a sicrhawyd drwy gytundebau Adran 106, a cheir derbynebaw o ddatblygiadau i dalu cyflog y swyddog prosiect hyd at 2021, yn gyson â cyfnod y CDLI.

Yn ystod y flwyddyn mae'r prosiect wedi cyflawni'r canlynol:

- Gosod ffensys ar 3 safle i hwyluso rheolaeth ar bori.
- Lladd gwair ar 8 safle i leihau dwysedd y llystyfiant, rheoli brwyn ac annog stoc i bori.
- Rheoli llystyfiant ar 7 safle i gynyddu'r cynefinoedd glaswelltir.
- Prysgoedio a ffensio gwrychoedd o gwmpas 3 chae ar safle sy'n eiddo i'r prosiect gan ddefnyddio cyllid gan Gynllun Glastir Llywodraeth Cymru, gwella gwrychoedd a rheoli tir pori.
- Gwell mynediad i 3 safle - creu man croesi ar draws nant ar gyfer da byw, gwella llwybr ar gyfer merlod ac atgyweirio pont.
- Parhau â rhaglenni rheoli Clymog Japan ar 2 safle a rheoli Jac y Neidiwr ar un arall.
- Casglu a hau Tamaid y Cythraul (yr unig blanhigyn sy'n cael ei fwyta gan larfâu Britheg y Gors) ar 3 safle.
- Cynorthwyo gyda rheoli tir pori ar 16 safle - dod o hyd i stoc, rheoli pori a symud stoc rhwng safleoedd i wella cynefinoedd.
- Cynorthwyo i gynnal profion TB ar wartheg cyn eu symud.
- Wedi symud ceffylau anystywallt o safle sydd wedi'i orbori i adfer y cynefin.
- Gweithio gyda gwirfoddolwyr lleol i wneud gwaith llosgi dan reolaeth ar 2 safle i adfer glaswelltir fel ei fod yn barod i gael ei bori.
- Trawsleoli tyweirch ar safle glaswelltir, gan eu symud o safle datblygu i ardaloedd a reolir gan y prosiect.
- Cynnal arolygon cynefinoedd o amgylch ardal y prosiect i baratoi ar gyfer y CDLI diwygiedig.
- Cynnal ymweliadau gan Gyngor Cymuned Llannon a Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin.
- Roedd y prosiect yn falch iawn o dderbyn y wobwr genedlaethol "Rhagoriaeth mewn Cynllunio ar gyfer yr Amgylchedd Naturiol" gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol.

Mae'r prosiect yn gweithio gyda chydweithwyr o adrannau eraill Cyngor Sir Gaerfyrddin, Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Glöynnod Byw, PONT, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a

Gorllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn, Llywodraeth Cymru a gwirfoddolwyr i gyflawni nodau cyffredin o fewn ardal y prosiect.

Prosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin – Er bod arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi dod i ben, mae un o'r corsydd (Figyn) wedi derbyn cyllid gan Brosiect Mawnogydd Cymru Gyfan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ffensio fel bod modd caniatáu pori dan reolaeth. Mae atalfeydd tân wedi'u torri, ac mae taith gerdded gyhoeddus wedi'i threfnu ar gyfer haf 2019. Cynhelir digwyddiad ar gyfer Diwrnod Corsydd Rhyngwladol ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain yn ystod mis Gorffennaf 2019.

Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin - Mae angen i Gynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin, a fydd yn disodli Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin, gyd-fynd ag amcanion Cynllun Adfer Natur Cymru a chael ei lywio gan restr ddiwygiedig Adran 7 o rywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth yng Nghymru a Datganiad Ardal y De-orllewin sy'n dod i'r amlwg. Mae'r rhain i gyd yn dal i gael eu datblygu mewn amrywiol ffyrdd.

Mae rhan 1 o'r cynllun wedi cael ei drafftio a'i diwygio gan Reolwr y Tîm yn bennaf. Bydd y newidiadau hyn yn awr yn cael eu cynnwys. Mae'r Bartneriaeth Natur wedi cymeradwyo egwyddor cynnwys y cynllun. Bydd Rhan 2 yn trafod sut y bydd y bartneriaeth yn ystyried y modd y dehonglir y camau gweithredu cenedlaethol yn lleol, a hynny yn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref 2019.

Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i gyflawni amcanion y cynllun a dyletswydd y Cyngor o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, e.e. darparu canllawiau ar gyfer cynghorau tref a chymuned ar reoli mannau agored, helpu i drefnu a darparu seminar ar y pwnc hwn yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, adolygiad o'r tudalennau bioamrywiaeth ar wefan y Cyngor, a datblygu cynllun strategol ar gyfer pryfed peillio ar gyfer y Sir a phrosiectau cysylltiedig.

Safle Morfa Berwig, Llanelli -. Cafodd Gwarchodfa Natur Leol Morfa Berwig ei dynodi'n flaenorol ym mis Gorffennaf 2017 gan Cyfoeth Naturiol Cymru a thros y 12 mis diwethaf mae wedi parhau i gael ei rheoli er mwyn gwella ei werth o safbwynt cadwraeth natur. Defnyddiwyd arian Adran 106 ar gyfer rheoli cynefin tir llwyd ar y safle, ac mae rhai ardaloedd lle'r oedd prysgwydd yn dechrau tyfu wedi cael eu torri'n ôl i ailsefydlu'r cyfnodau cynharach o olyniaeth llystyfiant.

Mae'r gwaith rheoli cynefinoedd ar gyfer y flwyddyn wedi cynnwys torri pob llystyfiant ar lannau a symud y sgil-gynhyrchion gyda chymorth gwirfoddolwyr. Mae hyn yn sicrhau tyfiant da o wahanol blanhigion sy'n sail i ddeiet llygod dŵr. Arolygwyd yr holl ffosydd am arwyddion o lygod dŵr. Cafodd yr holl lwybrau a gwrychoedd eu torri'n ôl gyda chontractwr, tra bod 3 ardal o dir llwyd wedi'u digroeni i ailgyflwyno cynefin o fath tir llwyd. Parhawyd â'r rhaglen bori yn y tri cae, cafodd planhigion Clymog Japan eu rheoli mewn 3 lleoliad ac ymchwiliwyd i'r posibilrwydd o gael llwybr crwn o amgylch y safle. Plannwyd 4 coeden poplys ddu fel rhan o'r cynllun rheoli cadwraeth ynghyd â rhaglen o ailgyflwyno penigan y porfeydd (*Dianthus armeria*). Cyfarfu gwirfoddolwyr cadwraeth unwaith y mis i gynnal y gwaith hanfodol o reoli'r cynefinoedd a'r ystâd.

Llygod dŵr - Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i chwilio am gyfleoedd yn ardal lefelau Llanelli er mwyn gweithio mewn partneriaeth i greu/gwella nodweddion ar gyfer llygod dŵr. Gan weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, a chan

ddefnyddio arian o Adran 106, cloddiwyd ffos dros 400 metr o hyd ar dir a oedd yn eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin ger Canolfan Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir Llanelli. Cafwyd tystiolaeth bod llygod dŵr yn ei defnyddio yn ystod 2019, 7 mis ar ôl i'r ffos gael ei chreu. Mae hyn hefyd yn darparu mannau storio dŵr llifogydd yn yr ardal.

Yn ogystal, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i gytundeb gyda datblygwr tai i gymryd drosodd y broses o reoli ardal liniaru ar gyfer llygod dŵr ym Machynys, gan ddefnyddio swm y cytunwyd arno gan y datblygwr i adfer a chynnal y ffosydd a grëwyd fel cynefin iawndal ar gyfer y cynefin hwnnw a gollwyd pan adeiladwyd y tai. Bydd hyn yn golygu bod y Cyngor yn rheoli cyfres o safleoedd ar hyd y rhan honno o arfordir Llanelli gan ganolbwyntio ar lygod dŵr fel y prif amcan rheoli. Ynghyd â rheoli'r ffosydd cyfagos yn y Ganolfan Gwlyptir, bydd ardal sylweddol bellach yn cael ei rheoli er budd yr anifail hwn sydd mewn perygl.

Pwysau lleol

Un ffactor sydd wedi rhoi pwysau ar y Timau Rheoli Datblygu yw effeithiau'r gofyniad am gyfraniadau ariannol tuag at ddarparu Tai Fforddiadwy yn y sir. Mae'r gofyniad hwn cynnwys aneddiadau sengl ac wedi creu heriau o ran canfyddiadau o hyn, a'r ffordd orau o sicrhau hyn trwy gytundeb cyfreithiol. Rhoddwyd pwysau ar wasanaeth cyfreithiol y Cyngor o ganlyniad, er y bu lleihad yn nifer y staff yn y gwasanaeth hwnnw ac mae'r broses yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Defnyddir Ymgymeriadau Unochrog er mwyn i'r gwasanaeth cyfreithiol allu canolbwyntio ar geisiadau Adran 106. Mae cymorth cyfreithiol yn parhau i fod ar gael bob amser oherwydd gall rhai ymgymeriadau unochrog fod yn gymhleth. Mae manteision y dull newydd hwn yn amlwg.

Mae'r dyraniad tai uchel a bennir yn y CDLI yn cyflwyno heriau mewn perthynas â chyflenwad 5 mlynedd, gyda chyflenwad 3.5 blynedd eleni (yn seiliedig ar y Datganiad Drafft o Dir Cyffredin) yn hytrach na 3.8 yn 2018. Gall hyn ystumio 'gwir' ddarlun o'r cyflenwad tir ac argaeledd safleoedd y gellir eu cyflenwi'n wirioneddol yn ystod y blynyddoedd cychwynnol ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.


Mae cyflwyno'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol ar 1 Ebrill 2015 wedi newid, trwy eu darpariaethau, y ffordd y gellir ceisio rhwymedigaethau cynllunio trwy Gytundebau Adran 106. Yn hyn o beth, cwtogwyd yn sylweddol ar y gallu i wneud rhwymedigaethau cynllunio yn ofynnol. Mae Rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn sefydlu ymagwedd fwy cyfyngedig o lawer tuag at rwymedigaethau cynllunio trwy Gytundebau Adran 106. Er bod y broses o godi tâl yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, am y tro, wedi cael ei gohirio mewn perthynas â Sir Gaerfyrddin, mae effaith y ddeddfwriaeth yn parhau.

BARN DEFNYDDWYR Y GWASANAETH

Yn 2018-19 cynhaliodd Uned Ddata Cymru arolwg o glercod y cynghorau tref a chymuned ar ran pob Awdurdod Cynllunio Lleol ledled Cymru. Mae cynghorau tref a chymuned yn ymgynghoreion statudol ar gyfer ein hawdurdod cynllunio. Ceir 72 o gynghorau o'r fath yn ein hardal, a chawsom 23 o ymatebion i'r arolwg.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis, o restr wedi'i rhagddiffinio a ddosbarthwyd i'r holl ymatebwyr ledled Cymru, y tair ffordd y credent y gallai ein Hawdurdod Cynllunio Lleol helpu cynghorau tref/cymuned i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae Ffigur 2 yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd bob opsiwn fel un o'u tri dewis. 'Rhoi adborth ar sut y cafodd sylwadau ar geisiadau cynllunio eu hystyried' oedd yr opsiwn a ddewiswyd amlaf, nid yn unig ar gyfer ein Hawdurdod Cynllunio Lleol ond ledled Cymru gyfan.

Ffigur 2: Ffyrdd y gallai Awdurdodau Cynllunio Lleol helpu cynghorau tref/cymuned i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio, 2018-19



Ar hyn o bryd, mae ein Hawdurdod Cynllunio Lleol yn darparu sylwebaeth yn ein hadroddiadau i'r Pwyllgor Cynllunio mewn ymateb i bwyntiau unigol a godwyd trwy'r broses ymgynghori gan amrywiol ymatebwyr. Fodd bynnag, nid ydym yn mynd yn ôl at yr ymgynghoreion yn uniongyrchol, gan roi manylion am y modd y deliwyd â'u sylwadau penodol. Byddai gwneud hynny'n cymryd llawer o amser ac nid yw'n ddull sy'n cael ei ddefnyddio ledled Cymru. Yn hytrach, rhaid i swyddog ym mhob un o'i benderfyniadau allu dangos ei

fod, wrth wneud y penderfyniad, wedi rhoi sylw dyledus i'r holl bwyntiau a godwyd gan y rheiny a wnaeth sylwadau.

EIN PERFFORMIAD 2018-19

Mae'r adran hon yn disgrifio ein perfformiad yn 2018-19. Mae'n ystyried dangosyddion y Fframwaith Perfformiad Cynllunio a data eraill sydd ar gael i helpu i greu darlun cynhwysfawr o'n perfformiad. Lle bo'n briodol, rydym yn cymharu ein perfformiad ni a darlun Cymru gyfan.

Caiff ein perfformiad ei ddadansoddi ar draws y pum agwedd allweddol ar gyflenwi gwasanaeth cynllunio, fel y'u nodir yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio:

- Gwneud cynlluniau;
- Effeithiolrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltu; ac
- Gorfodi.

Gwneud cynlluniau

Ar 31 Mawrth 2019, roeddem yn un o'r 23 Awdurdod Cynllunio Lleol a oedd â chynllun datblygu lleol cyfredol ar waith. Mae'n ofynnol i ni gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol ym mis Hydref 2019. Paratowyd y ddogfen hon ac ar hyn o bryd mae'n mynd drwy'r strwythur adrodd yn barod i'w chyflwyno erbyn diwedd Hydref i Lywodraeth Cymru.


Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, roedd gennym 3.8 blynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai wedi'i nodi, ac felly ni oedd un o'r 19 Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru heb y cyflenwad gofynnol sef 5 mlynedd. Nodwyd y gostyngiad hwn yn yr Adolygiad o'r CDLI a wnaed y llynedd pan oedd yn 4.1 blynedd, ac mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater hwn drwy lunio'r fersiwn nesaf o'r CDLI y disgwylir iddo gael ei fabwysiadu erbyn diwedd 2021.

O'r 18 a ymatebodd i arolwg o glercod cynghorau tref a chymuned 2018-19 dywedodd 78% fod eu cyngor wedi cyfrannu at gynhyrchu a/neu adolygu ein CDLI. O blith y rhain, roedd 78% yn cytuno bod proses y CDLI yn hawdd i'w deall, a chytunai 89% fod eu cyngor yn fodlon ar y ffordd y mae'r broses CDLI yn mynd (neu wedi mynd), o gymharu â 64% a 62% yn y drefn honno ledled Cymru.

Effeithlonrwydd

Yn 2018-19, penderfynasom ar 1,221 o geisiadau cynllunio, a chymerodd pob penderfyniad 106 diwrnod (15 wythnos) ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 77 diwrnod (11 wythnos) ar draws Cymru. Mae Ffigur 3 yn dangos yr amser cyfartalog y mae pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei gymryd i benderfynu ar gais yn ystod y flwyddyn.

Ffigur 3: Amser ar gyfartaledd (diwrnodau) a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau, 2018-19




Penderfynwyd ar 73% o'r holl geisiadau cynllunio o fewn y cyfnodau amser gofynnol. Hon oedd un o'r canrannau isaf yng Nghymru ac roedd islaw'r targed a osodwyd ledled Cymru, sef 80%. O'r 25 awdurdod cynllunio lleol roedd 20 yn bodloni'r targed o 80% – mae hyn wedi parhau i ostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf o 22 yn 2017. Er nad ydym wedi cyrraedd y targed, mae ein canran wedi gwella ychydig o gymharu â'n canrannau yn 2018 a 2017 sef 71% a 70% yn y drefn honno.

Mae Ffigur 4 yn dangos canran y ceisiadau cynlluniau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol ar draws y prif fathau o gais yn ein Hawdurdod Cynllunio Lleol ni ac yng Nghymru. Mae'n dangos ein bod wedi penderfynu ar 83% o geisiadau gan ddeiliaid tai o fewn y cyfnodau amser gofynnol - sydd yn uwch na'r targed cyffredinol o 80% a osodir ar gyfer yr holl geisiadau.


Gwnaethom benderfynu hefyd ar 66% o'r ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig o fewn y cyfnodau amser gofynnol. Er bod hyn yn parhau i fod ychydig islaw'r trothwy o 70% i fynd â ni allan o'r categori 'angen gwella', mae'n welliant sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan wnaethom benderfynu ar 43% yn unig. Mae manteision sefydlu tîm Treftadaeth Adeiledig newydd fel rhan o broses ailstrwythuro 2017 o fewn y swyddogaeth Rheoli Datblygu a dychwelyd i'r cyflenwad llawn o staff yn amlwg yn gwneud gwahaniaeth o ran perfformiad.

Ffigur 4: Canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol, yn ôl eu math, 2018-19



Rhwng 2017-18 a 2018-19, fel y dengys Ffigur 5, cynyddodd canran y ceisiadau cynllunio y penderfynasom arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol o 71% yn 2018 (70% yn 2017).

Ffigur 5: Canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol



Dros yr un cyfnod:


- Cynyddodd nifer y ceisiadau a gawsom;
- Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau y penderfynasom arnynt; ac
- Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau a gymeradwyasom.

Ceisiadau mawr

Gwnaethom benderfynu ar 23 o geisiadau cynllunio mawr yn ystod 2018-19, nid oedd yr un ohonynt yn destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Ar gyfartaledd, cymerwyd 456 diwrnod

(65 wythnos) i benderfynu ar bob cais. Fel y dengys Ffigur 6, dyma'r amser cyfartalog hiraf ond tri o blith holl Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru. Mae nifer y diwrnodau wedi parhau i ostwng dros y blynyddoedd diwethaf o 567 yn 2017 a 466 yn 2018. Yn 2017 cymerodd yr Awdurdod yr amser hiraf o blith yr holl Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth benderfynu ar y ceisiadau hyn, felly gwelwyd rhai gwelliannau amlwg yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf os yw'r amser a gymerir yn cael ei gymryd ar ei ben ei hun fel mesur o benderfyniad da. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gweithio ar ganlyniad cadarnhaol fel y prif ddull o fesur llwyddiant yn hytrach na'r amser a gymerwyd yn unig, ac mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r amser a gymerir i benderfynu ar geisiadau mawr o ystyried eu cymhlethdodau anochel.


Ffigur 6: Amser cyfartalog (diwrnodau) a gymerwyd i benderfynu ar gais mawr, 2018-19



O'r ceisiadau mawr hyn, penderfynwyd ar 39% o fewn y cyfnodau amser gofynnol, o gymharu â 69% ar draws Cymru. Unwaith eto, mae hyn yn welliant amlwg o 25% yn 2018 ac 16% yn 2017.

Mewn gwrthgyferbyniad, bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt, ac felly hefyd nifer y ceisiadau oedd yn destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn.


Ffigur 7: Canran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol yn ystod y flwyddyn, yn ôl y math o gais, 2018-19



Yn ogystal, gwnaethom benderfynu ar 9 o geisiadau mawr a oedd yn destun Cytundebau Perfformiad Cyllunio o fewn y cyfnodau amser gofynnol yn ystod y flwyddyn.

Mae Ffigur 8 yn dangos y duedd yng nghanran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol yn y blynyddoedd diweddar, a sut mae hyn yn cymharu â chanrannau Cymru.

Ffigur 8: Canran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol



Yn ystod yr un cyfnod:

- Gostyngodd canran y mân geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol o 73% i 72%;

- Gostyngodd canran y ceisiadau gan ddeiliaid tai y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol o 85% i 83%; a
- Chynyddodd canran y ceisiadau eraill y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol o 69% i 76%.

Mae angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol roi ystyriaeth bellach i'r canlyniadau a geir yn yr adran hon ar Effeithlonrwydd. Mae peth trafodaethau cynnar mewn fforwm o Brif Swyddogion Cynllunio Cymru gyfan yn awgrymu bod rhai o'r canlyniadau is na'r cyfartaledd yn deillio o barhad pwyslais Sir Gaerfyrddin ar weithio gydag ymgeisydd i gael cymeradwyaeth yn hytrach na gwrthod y cais - gan felly ymestyn yr amser a gymerir i benderfynu arno. Mewn llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol y dyddiadau targed sy'n llywio'r penderfyniadau – gan arwain at gyfraddau gwrthod llawer uwch nag yn Sir Gaerfyrddin. Mae llawer o'r ceisiadau hynny a wrthodwyd yn cael eu cymeradwyo maes o law trwy gais dilynol, sydd wrth gwrs yn cymryd amser ychwanegol. Hyd yma mae'r broses adolygu a gynhaliwyd ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin a'r drafodaeth barhaus ag ymgeiswyr yn dynodi, yn gyffredinol, y byddai'n well gan yr ymgeiswyr gael gweithio gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol i sicrhau cymeradwyaeth ac nad yw hyn o anghenraid yn cymryd mwy o amser oherwydd pe bai'r cais yn cael ei wrthod a bod rhaid iddynt ei ail-gyflwyno, ni fyddai'r amser o'r dechrau i'r diwedd yn llawer hirach o safbwynt profiad yr ymgeisydd. Nid yw pob ymgeisydd yn rhannu'r safbwynt hwn ac mae angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gymryd golwg gytbwys yn yr achosion hynny a bod yn barod i wrthod - mae'r dull hwn yn mynd i gael ei ystyried ymhellach gan swyddogion yn ystod hydref 2019.

Mae hi hefyd yn glir o'r drafodaeth ddiweddar a gafwyd dros Gymru gyfan bod y rhan fwyaf o Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru yn gwneud defnydd effeithiol o'r dull 'estyniad amser' a gyflwynwyd gan is-ddeddfwriaeth yng Nghymru. Mae hyn yn caniatáu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyd-drafod dyddiad targed diwygiedig â'r ymgeisydd. Felly, mae llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cyflawni canran uwch o benderfyniadau o fewn yr amser targed, er y bydd y cyfnod o amser yn hirach na'r targed statudol cychwynnol. Mae angen edrych ar hyn unwaith eto gyda'r swyddogion a'i fabwysiadu i raddau mwy gan Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin mewn perthynas â cheisiadau yn y dyfodol, gan y byddai'n nodi gwelliant sylweddol yng nghanran y ceisiadau y penderfynir arnynt o fewn yr amser gofynnol. Wrth gwrs, nid yw'n adlewyrchu cyfanswm yr amser a gymerwyd.

Fel y nodwyd uchod bu gwelliant sylweddol o safbwynt yr amser a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau adeiladau rhestredig eleni o gymharu â'r llynedd.

Mae hi hefyd yn amlwg bod Sir Gaerfyrddin yn derbyn y nifer uchaf o geisiadau cynllunio ond dau o blith holl awdurdodau cynllunio lleol Cymru. Mae angen ystyried p'un a oes gan y gwasanaeth ddigon o adnoddau i ddelio â'r lefel hon o gynllunio ceisiadau – yn enwedig o safbwynt cyfraniad gan staff arbenigol (Prifffyrdd, Ecoleg, Draenio, Cyfreithiol ac ati).

Ansawdd

Yn ystod 2018-19, penderfynodd ein Pwyllgor Cynllunio ar 78 o geisiadau cynllunio yn ystod y flwyddyn, a oedd yn cyfateb i 6% o'r holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt. Yng Nghymru, penderfynodd pwyllgorau cynllunio ar 6% o'r holl geisiadau cynllunio.


Roedd 12% o'r penderfyniadau hyn a wnaed gan aelodau yn mynd yn groes i gyngor swyddogion. Mae hyn yn cymharu â 9% o'r penderfyniadau a wnaed gan aelodau yng

Nghymru. Mae hyn yn gyfwerth â 0.7% o'r holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio a aeth yn groes i gyngor swyddogion; 0.5% yng Nghymru.

Caiff y rhain eu cydnabod fel niferoedd bach ar y cyfan; fodd bynnag, lle mae'r penderfyniad yn mynd yn groes i argymhelliad swyddog, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor roi penderfyniad cynllunio ynghylch pam y dylai'r penderfyniad fod fel y cyfryw. Lle apelwyd yn erbyn penderfyniad o'r fath, caiff canlyniadau'r apelïadau hynny eu bwydo'n ôl i'r Pwyllgor i helpu i hyfforddi aelodau.

Yn 2018-19, cawsom 23 apêl yn erbyn ein penderfyniadau cynllunio, sy'n gyfwerth ag 1.7 apêl am bob 100 cais a gafwyd. Ledled Cymru gafwyd 2 apêl am bob 100 cais – felly mae cyfradd herio'r Cyngor yn is nag un Cymru ar gyfartaledd. Mae Ffigur 9 yn dangos sut mae nifer yr apelïadau a gafwyd wedi newid ers 2017-18 a sut mae hyn yn cymharu â Chymru.

Ffigur 9: Nifer yr apelïadau a gafwyd am bob 100 cais cynllunio




Yn ystod yr un cyfnod, arhosodd canran y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd yr un peth sef 85%.

Mae'r adran uchod yn dangos bod cyfradd is o apelïadau yn cael eu cyflwyno yn Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd lefel y gyfradd gymeradwyo sy'n gyson uchel o gymharu â llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill (85%) a'r ffordd y mae'n gweithio gyda'r ymgeisydd i sicrhau canlyniad cadarnhaol, lle bo modd, yn ystod cam y cais cynllunio.

O'r 6 apêl a gadarnhawyd, cafodd 3 eu gwrthod gan y Pwyllgor Cynllunio yn dilyn argymhelliad y swyddog i'w cymeradwyo.

O'r 23 apêl y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn, gwrthodwyd 73.9%, sydd yn gynnwys mewn canran o gymharu â'r llynedd. Fel y dengys Ffigur 10, roedd y ganran hon yn uwch na chanran yr apelïadau a wrthodwyd ar draws Cymru gyfan ac roeddem yn un o 14 Awdurdod Cynllunio Lleol a gyrhaeddodd y targed o 66%. Mae hyn eto'n dangos cefnogaeth i ansawdd y penderfyniadau a wneir yn y Sir.

Ffigur 10: Canran yr apeliadau a wrthodwyd, 2018-19



Yn ystod 2018-19 cawsom 1 cais am gostau mewn apêl adran 78 a gadarnhawyd, a oedd yn golygu ein bod yn un o'r 10 Awdurdod Cynllunio Lleol i gael o leiaf un cais o'r fath wedi'i gadarnhau yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf nid ydym wedi cael unrhyw rai.

O'r rheiny a ymatebodd (74%) i arolwg clerod cyngorau tref a chymuned 2018-19, dywedodd 17 (74%) eu bod naill ai'n 'fodlon iawn' neu'n 'eithaf bodlon' ar y modd y mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn delio â'u cyngor mewn perthynas ag apeliadau, o'i gymharu â 55% o'r ymatebwyr ledled Cymru.

Ymgysylltu

Rydym:

- yn un o'r 24 Awdurdod Cynllunio Lleol a ganiataodd i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio;
- yn un o'r 22 Awdurdod Cynllunio Lleol sydd â swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd; ac
- yn un o'r 21 Awdurdod Cynllunio Lleol sydd â chofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio.

O'r clerod cyngorau tref a chymuned a ymatebodd i arolwg 2018-19, roedd 17 (74%) o'r farn bod gan eu cyngor ddigon o amser ac adnoddau i gyfrannu'n effeithiol at reoli datblygu yn ein hardal, o gymharu â 59% o glerod a ymatebodd ledled Cymru. O'r arolwg dywedodd 11 (48%) eu bod 'bob amser' yn gallu a dywedodd 12 (52%) eu bod 'weithiau' yn gallu ymateb i geisiadau o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod.

Fel y dengys Tabl 2, cytunodd 70% o'r ymatebwyr yn ein harolwg cwsmeriaid 2017-18 fod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus.

Tabl 1: Adborth o'n harolwg cwsmeriaid 2017-18

Respondents who agreed that:	Carmarthenshire LPA %	Wales %
The LPA gave good advice to help them make a successful application	70	60
They were listened to about their application	62	60


At ei gilydd mae'r adborth cyffredinol am y Gwasanaeth gan Gyngorau Tref a Chymuned yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer y rhan fwyaf o gategorïau a arolygwyd. Bydd Pennaeth y Gwasanaeth a'r Rheolwr Rheoli Datblygu a Threftadaeth Adeiledig yn trafod y canlyniadau hyn ymhellach gyda'r Uwch Swyddogion Rheoli Datblygu a'r timau i edrych ar unrhyw feysydd i'w gwella ymhellach.

Gorfodi

Yn 2018-19 ymchwliasom i 388 o achosion gorfodi, sy'n gyfwerth â 2.1 am bob 1,000 o'r boblogaeth. Roedd y ffigur hwn yn cymharu ag 1.9 achos gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt am bob 1,000 o'r boblogaeth ar draws Cymru.

Ymchwliasom i 52% o'r achosion gorfodi hyn o fewn 84 diwrnod. Yng Nghymru, ymchwiliwyd i 77% o'r achosion o fewn 84 diwrnod. Mae Ffigur 11 yn dangos canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod ar draws holl Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru.

Ffigur 11: Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod, 2018-19



Yn arolwg clerod cyngorau tref a chymuned 2018-19, nododd 11 o'r rheiny a ymatebodd (50%) bod ein Hawdurdod Cynllunio Lleol yn ymchwilio i achosion gorfodi yn 'brydlon iawn' neu'n 'rhesymol brydlon', o gymharu â 36% o ymatebwyr ledled Cymru. Nododd 13 o'r rheiny a ymatebodd (59%) eu bod naill ai'n 'fodlon iawn' neu'n 'eithaf bodlon' â'r modd y mae ein Hawdurdod Cynllunio Lleol yn ymateb i achosion o dorri rheolau cynllunio. Roedd hyn yn 40% ar gyfer Cymru.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cydnabod bod cyfran yr achosion yr ymchwiliwyd iddynt dros y blynyddoedd diwethaf wedi gostwng o 67% yn 2017. Mae'r patrwm hwn hefyd yn

amlwg ledled Cymru gyda chanran gyfartalog yr achosion yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod bellach yn 77% o gymharu ag 85% yn 2017.

Mae'r tîm hefyd yn ymwybodol bod yna broblemau gyda'r system gyfredol ac efallai nad yw'r canlyniadau a gyflwynir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn adlewyrchu'r data a geisir yn gywir. Ni fydd hyn yn cael ei ddatrys nes bod y system cefn swyddfa newydd yn ei lle. Er y bydd hyn yn cael ei gyflawni cyn diwedd 2019/20, ni fydd effeithiau hyn o safbwynt Adroddiadau Perfformiad Blynnyddol y dyfodol yn cael eu hadlewyrchu tan Adroddiad 2021. Dim ond wedyn y byddwn yn cael adlewyrchiad cywir o'r hyn sy'n cael ei gyflawni mewn perthynas â'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Er gwaethaf y broblem yn ymwneud â threfniadau adrodd cywir oherwydd y system sydd ar waith, mae'r Tîm Gorfodi hefyd wrthi'n adolygu'r modd yr ydym yn darparu'r gwasanaeth hwn. Bydd camau gweithredu'n cael eu nodi fel rhan o'r adolygiad hwnnw ar ddiwedd 2019 i'w datblygu a'u gweithredu yn 2020.

ATODIAD A – FFRAMWAITH PERFFORMIAD

TROSOLWG

DANGOSYDD	DA	GWEDDOL	GWELLA
Gwneud cynlluniau			
A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?	Oes		Nac oes
Y gwriad, wrth baratoi CDLI, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd.	<12	13-17	18+
Yr amser a gymerwyd i ddechrau ar adolygiad ffurfiol o'r CDLI ar ôl sbarduno Rheoliad 41, mewn misoedd	<12	13-17	18+
A oes Cytundeb Cyflawni ar gyfer Adolygu'r CDLI wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, y cytunwyd arno gyda'r Llywodraeth?	Oes		Nac oes
Y gwriad, wrth adolygu'r CDLI, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd.	<3		4+
Adroddiadau Monitro Blyneddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	Oes		Nac oes
Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blyneddod	>5		<5
Effeithlonrwydd			
Canran y ceisiadau "mawr" y penderfynwyd arnynt o fewn cyfnodau amser gofynnol	>60	50.1-59.9	<50
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu

CYFARTAL EDD CYMRU	ACLI Sir Gaerfyrddin Y LLYNEDD	ACLI Sir Gaerfyrddin ELENİ
Oes	Oes	Oes
73	0	0
17	-	-5
Oes	Oes	Oes
1	0	0
Oes	Oes	Oes
6 o 25	4.2	3.8
68	25	39
232	466	456

DANGOSYDD	DA	GWEDDOL	GWELLA
Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol	>80	70.1-79.9	<70
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	<67	67-111	112+
Canran y ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol	>80	70.1-79.9	<70
Ansawdd			
Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	<5	5-9	9+
Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod	>66	55.1-65.9	<55
Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd	0	1	2+
Ymgysylltu			
A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	Ydy		Nac ydy
A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	Oes		Nac oes
A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	Oes	Rhannol	Nac oes
Gorfodi			
Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio (penderfynwyd a oedd tramgwydd o'r rheolau cynllunio wedi digwydd ac, os felly, penderfynwyd a fyddai cymryd camau gorfodi yn addas ai peidio) o fewn 84 diwrnod	>80	70.1-79.9	<70
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol	<100	101-200	200+

CYFARTAL EDD CYMRU	ACLI Sir Gaerfyrddin Y LLYNEDD	ACLI Sir Gaerfyrddin ELENi
88	71	73
77	100	106
75	43	66
9	16	12
68	58	71
0	0	1
Ydy	Ydy	Ydy
Oes	Oes	Oes
Oes	Oes	Oes
77	56	52
167	Dim data	Dim data

ADRAN 1 – GWNEUD CYNLLUNIAU

Dangosydd	01. A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Mae Cynllun Datblygu cyfredol (CDLI neu CDU) yn ei le ac o fewn cyfnod y cynllun	Ddim yn berthnasol	Nid oes cynllun datblygu cyfredol yn ei le (gan gynnwys lle mae’r cynllun wedi dod i ben)

Perfformiad yr Awdurdod	Oes
Cafodd y CDLI ei fabwysiadu ar 10 Rhagfyr 2014 ac mae’n darparu fframwaith defnydd tir cyfredol a chadarn.	

Dangosydd	02. Y gwyriad, wrth baratoi CDLI, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd.	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Eir i'r afael â'r CDLI o fewn 12 mis i'r dyddiadau a nodir yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol	Eir i'r afael â'r CDLI o fewn 12 i 18 mis i'r dyddiadau a nodir yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol	Eir i'r afael â'r CDLI fwy na 18 mis yn hwyrach na'r dyddiad a nodir yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol

Perfformiad yr Awdurdod	0
Cafodd y CDLI ei fabwysiadu ar 10 Rhagfyr 2014. Mae adolygiad wedi dechrau a chymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Mehefin 2018 (https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/cytundeb-cyflawni/#.XbBKf-SQxPY).	

Dangosydd	03. Yr amser a gymerwyd i ddechrau ar adolygiad ffurfiol o'r CDLI ar ôl sbarduno Rheoliad 41, mewn misoedd	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Cyflwynir y Cytundeb Cyflawni lai na 12 mis ar ôl i Reoliad 41 gael ei sbarduno	Cyflwynir y Cytundeb Cyflawni rhwng 12 a 18 mis ar ôl i Reoliad 41 gael ei sbarduno	Cyflwynir y Cytundeb Cyflawni fwy na 18 mis ar ôl i Reoliad 41 gael ei sbarduno

Perfformiad yr Awdurdod	-5
Penderfynodd Llywodraeth Cymru mai 1 Rhagfyr 2018 oedd dyddiad yr adolygiad 4 mlynedd statudol ar gyfer CDLI Sir Gaerfyrddin, ond dechreuodd yr arolwg ar 28 Mehefin 2018, 5 mis yn gynharach na'r dyddiad statudol. Cytunodd Llywodraeth Cymru ar y Cytundeb Cyflawni mewn perthynas â CDLI Diwygiedig Sir Gaerfyrddin ar 28 Mehefin 2018. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd wrthi'n paratoi ei CDLI Diwygiedig yn unol â darpariaethau'r Cytundeb Cyflawni.	

Dangosydd	04. A oes Cytundeb Cyflawni ar gyfer Adolygu'r CDLI wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac a gytunwyd arno gyda'r Llywodraeth?	
"Da"		"Angen gwelliant"
Mae Cytundeb Cyflawni ar gyfer Adolygu'r CDLI wedi'i gyflwyno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a chytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru		Nid oes Cytundeb Cyflawni ar gyfer Adolygu'r CDLI wedi'i gyflwyno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu ni chytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru

Perfformiad yr Awdurdod	Oes
Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni ar gyfer Adolygu'r CDLI gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Mehefin 2018 (https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/cynllundatblygu-lleol-2018-2033/cytundeb-cyflawni/#.XbBKf-SQxPY).	

Dangosydd	05. Y gwyriad, wrth adolygu'r CDLI, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd	
"Da"		"Angen gwelliant"
Mae'r gwaith o adolygu'r CDLI yn mynd rhagddo o fewn y dyddiadau a nodir yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol		Mae'r gwaith o adolygu'r CDLI yn mynd rhagddo yn hwyrach na'r dyddiadau a nodir yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol

Perfformiad yr Awdurdod	0

Dangosydd	06. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	
"Da"		"Angen gwelliant"
Mae'n amser cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol, ac mae un wedi'i baratoi		Mae'n amser cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol, ac nid oes un wedi'i baratoi mewn pryd

Perfformiad yr Awdurdod	Oes
Cynhyrchwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol, a bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2019. Cymeradwywyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol gan y Cyngor Llawn ar 9 Hydref 2019.	

Dangosydd	07. Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd	
"Da"		"Angen gwelliant"
Mae gan yr awdurdod 5 mlynedd neu fwy o gyflenwad o dir ar gyfer tai		Mae gan yr awdurdod lai na 5 mlynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tai

Perfformiad yr Awdurdod	3.8
Trafodir y mater hwn yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2018/19 y CDLI. Bydd y materion yn ymwneud â lefelau cyflenwad 5 mlynedd yn cael eu hystyried a rhoddir sylw iddynt fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI sydd eisoes ar waith, gyda'r cynllun nesaf i fod i gael ei fabwysiadu cyn diwedd 2021. Cyfartaledd Cymru ar gyfer cyflenwad tai yw 6 blynedd; fodd bynnag, mae'r cyflenwad o dan 5 mlynedd yn fater sy'n gyffredin i awdurdodau cynllunio lleol eraill ledled Cymru (mae Sir Gaerfyrddin yn un o 19 Awdurdod Cynllunio Lleol sydd heb y cyflenwad gofynnol o bum mlynedd). Dylid nodi, oherwydd y modd y mae data ar gael ar draws Cymru, fod y canlyniad yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol bob amser flwyddyn yn hwyr a bod y canlyniad uchod ar gyfer 31 Mawrth 2018. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bryderon awdurdodau cynllunio lleol ynghylch y modd y caiff cyflenwad tir ei fesur ar hyn o bryd. Dylai'r cylch nesaf o CDLlau roi sylw i'r mater hwn. Tan hynny, mae cyflenwad tir yn debygol o barhau i fod yn fater i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol sydd eisoes â chyflenwad o dan 5 mlynedd.	

ADRAN 2 - EFFEITHLONRWYDD

Dangosydd	08. Canran y ceisiadau "mawr" y penderfynwyd arnynt o fewn cyfnodau amser gofynnol	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Penderfynwyd ar 60% neu fwy o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynwyd ar rhwng 50% a 60% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynwyd ar lai na 50% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol

Perfformiad yr Awdurdod	39
Penderfynwyd ar gyfanswm o 23 o geisiadau mawr o fewn y cyfnodau amser gofynnol, gan gymryd 465 diwrnod (65 wythnos) ar gyfartaledd i benderfynu arnynt. Dyma'r amser cyfartalog hiraf ond tri a gymerwyd ledled Cymru. O ganlyniad penderfynwyd ar 39% o geisiadau mawr o fewn yr amserlenni gofynnol. Gweler y prif adroddiad am sylwadau ar sut y mae nifer y diwrnodau (567 diwrnod) wedi gostwng yn sylweddol ers 2017 a bod canran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt yn brydlon hefyd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2017 (16%). Penderfynwyd ar 9 cais mawr a oedd yn destun Cytundeb Perfformiad Cynllunio o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae'r sylwebaeth ym mhrif gorff yr adroddiad yn cydnabod bod angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud gwell defnydd o'r darpariaethau ar gyfer cytuno ar estyniad amser gyda'r ymgeisydd. Dylai hyn wella'r canlyniadau ymhellach o dan y mesur hwn.	

Dangosydd	09. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi	Targed i gael ei feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	456
Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu meincnod ar gyfer y Dangosydd hwn hyd yma. Nodir mai'r canlyniad oedd yr amser cyfartalog hiraf ond tri ledled Cymru. Gweler y prif adroddiad am sylwadau ar sut y mae nifer y diwrnodau (567 diwrnod) wedi gostwng yn sylweddol ers 2017 a bod canran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt yn brydlon hefyd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2017 (16%).	

Dangosydd	10. Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Penderfynwyd ar 80% neu fwy o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynwyd ar rhwng 70% ac 80% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynwyd ar lai na 70% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol

Perfformiad yr Awdurdod	73
Mae'r perfformiad yn is na chyfartaledd Cymru sef 88.1%, ond mae'n parhau i fod yn 'weddol' o ran y mesur perfformiad cyffredinol. Penderfynwyd ar 1231 o geisiadau o fewn y cyfnodau amser a bennwyd. Nodir mai'r canlyniad ar gyfer Sir Gaerfyrddin yw un o'r rhai isaf ledled Cymru, ac mae'n un o'r 5 Awdurdod Cynllunio Lleol na lwyddodd i gyrraedd y targed o 80% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Er nad ydym wedi cyrraedd y targed, mae ein canran wedi gwella ychydig o gymharu â'n canrannau yn 2018 a 2017 sef 71% a 70% yn y drefn honno. Nodir hefyd, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, fod yna ychydig yn fwy o awdurdodau cynllunio lleol eraill sy'n ei chael hi'n anodd cyrraedd y targed nag yr oedd nôl yn 2017. Mae'r sylwebaeth ym mhrif gorff yr adroddiad hwn yn cydnabod bod angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud gwell defnydd o'r darpariaethau ar gyfer cytuno ar estyniad amser gyda'r ymgeisydd. Bydd hyn yn gwella'r canlyniadau ymhellach o dan y mesur hwn.	

Dangosydd	11. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
67 diwrnod neu lai	Rhwng 67 a 111 diwrnod	Mwy na 112 diwrnod

Perfformiad yr Awdurdod	106
Mae'r perfformiad yn is na chyfartaledd Cymru sef 77 diwrnod (11 wythnos). Fodd bynnag, o safbwynt y perfformiad cyffredinol, mae'n parhau i fod yn ddiogel o fewn y categori 'gweddol'.	

Dangosydd	12. Canran y ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Penderfynwyd ar 80% neu fwy o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynwyd ar rhwng 70% ac 80% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynwyd ar lai na 70% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol

Perfformiad yr Awdurdod	66
74.7% yw cyfartaledd Cymru. Ystyrir bod canlyniad islaw 70% yn faes i'w wella. Gwnaethom benderfynu hefyd ar 66% o'r ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig o fewn y cyfnodau amser gofynnol. Er bod hyn yn parhau i fod ychydig islaw'r trothwy o 70% i fynd â ni allan o'r categori 'angen gwella', mae'n welliant sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan wnaethom benderfynu ar 43% yn unig. Mae manteision sefydlu tîm Treftadaeth Adeiledig newydd fel rhan o broses ailstrwythuro 2017 o fewn y swyddogaeth Rheoli Datblygu a dychwelyd i'r cyflenwad llawn o staff yn amlwg yn gwneud gwahaniaeth o ran perfformiad.	

ADRAN 3 - ANSAWDD

Dangosydd	13. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Gwneir llai na 5% o benderfyniadau yn groes i gyngor swyddogion	Gwneir rhwng 5% a 9% o benderfyniadau yn groes i gyngor swyddogion	Gwneir mwy na 9% o benderfyniadau yn groes i gyngor swyddogion

Perfformiad yr Awdurdod	12
Yn ystod 2018/19, penderfynwyd ar 78 o geisiadau gan y Pwyllgor Cynllunio. Mae hyn yn cyfateb i 6% o'r holl geisiadau a benderfynwyd. Roedd 12% o benderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn mynd yn erbyn cyngor y swyddogion, mae hyn yn uwch na'r trothwy o 9% lle nodir bod angen gwelliant. Os yw penderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio'n groes i gyngor swyddogion, caiff y rhesymau dros hynny (gan gynnwys sail polisi) eu cynnwys yng nghofnodion y Cyngor. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwneud mwy o ddefnydd o'r digwyddiadau hyfforddi Aelodau a ddyrannwyd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r penderfyniadau a wneir gan Bwyllgor. Mae rhan o hyn yn cynnwys adrodd yn ôl ar benderfyniad apêl, yn enwedig lle nad yw penderfyniad yr ALL wedi'i gadarnhau.	

Dangosydd	14. Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Mwy na 66% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl	Rhwng 55% a 66% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl	Llai na 55% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl

Perfformiad yr Awdurdod	71
Gan fod 71% o'r apeliadau wedi'u gwrthod, mae hyn yn uwch na'r ganran a wrthodwyd ledled Cymru. Mae Sir Gaerfyrddin yn un o 14 Awdurdod Cynllunio Lleol i gyrraedd y targed o 66%.	

Dangosydd	15. Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Nid yw'r awdurdod wedi gorfod talu costau unrhyw apêl yn ei erbyn	Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau un apêl yn ei erbyn	Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau dwy apêl neu fwy yn ei erbyn

Perfformiad yr Awdurdod	1
Mae Sir Gaerfyrddin yn un o 10 Awdurdod Cynllunio Lleol y dyfarnwyd costau yn ei erbyn yn ystod 2018/19. Penderfynwyd ar y cais yn y Pwyllgor Cynllunio, ac roedd yn groes i argymhelliad y swyddog i'w gymeradwyo. Y manylion yw: W/35450 – Datblygiad preswyl arfaethedig o 42 o breswylfeydd - tir ger Ysgol Gynradd Talacharn SA33 4S	

ADRAN 4 – YMGYSYLLTU

Dangosydd	16. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	
"Da"		"Angen gwelliant"
Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio		Nid yw aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio

Perfformiad yr Awdurdod	Ydy
Mae Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio	

Dangosydd	17. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Mae swyddog cynllunio ar ddyletswydd ar gael yn ystod oriau swyddfa arferol	Mae swyddog cynllunio ar ddyletswydd ar gael, ond nid bob amser yn ystod oriau swyddfa arferol	Nid oes swyddog cynllunio ar ddyletswydd ar gael.

Perfformiad yr Awdurdod	Oes
Er nad oes yna system "swyddog ar ddyletswydd" ffurfiol, mae'r holl swyddogion ar gael i ddelio ag ymholiadau cyffredinol gan y cyhoedd.	

Dangosydd	18. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Mae pob dogfen ar gael ar lein	Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein	Ni chyhoeddir gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar ein

Perfformiad yr Awdurdod	Oes
Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyhoeddi'r holl fanylion sy'n ymwneud â Chais Cynllunio ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.	

ADRAN 5 - GORFODI

Dangosydd	19. Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio (penderfynwyd a oedd tramgwydd o'r rheolau cynllunio wedi digwydd ac, os felly, penderfynwyd a fyddai cymryd camau gorfodi yn addas ai peidio) o fewn 84 diwrnod	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Ymchwilir i 80% neu fwy o achosion gorfodi mewn 84 diwrnod	Ymchwilir i rhwng 70% ac 80% o achosion gorfodi mewn 84 diwrnod	Ymchwilir i lai na 70% o achosion gorfodi mewn 84 diwrnod

Perfformiad yr Awdurdod	52
Mae Tîm Gorfodi newydd wedi'i sefydlu ers Tachwedd 2017, ac wedi bod yn cynnal adolygiad o brosesau gorfodi yn ystod 2018/19. Bwriedir paratoi protocol Gorfodi newydd ar gyfer y broses hefyd.	

Dangosydd	20. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
100 diwrnod neu lai	Rhwng 101-200 diwrnod	Mwy na 200 diwrnod

Perfformiad yr Awdurdod	Dim data
Bydd y system cefn swyddfa newydd ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio yn cael ei chyflwyno yn ystod 2019/20. Bydd gan y system newydd gyfleuster i gyrchu a mesur data ar gyfer y dangosydd hwn. Fodd bynnag ni fydd y data o'r system honno ar gael tan yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol sy'n cwmpasu 2020/21.	

ADRAN 6 – DANGOSYDDION DATBLYGU CYNALIADWY

Diben y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yw mesur y cyfraniad mae'r system gynllunio yn ei wneud i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Bydd y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn amcanion cynaliadwyedd cynllunio cenedlaethol, a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gellir eu defnyddio i ddangos i'n rhanddeiliaid rôl a chwmpas y system gynllunio wrth gyflawni amcanion ehangach. Bydd y wybodaeth hefyd yn ddefnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol er mwyn deall mwy am ganlyniadau'r system gynllunio ac yn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

Cyflwyniadau'r awdurdod	Yn chwarter 1 – cyflwynwyd y data'n rhannol (gweler y dangosydd datblygu cynaliadwy unigol isod) Yn chwarter 2 – cyflwynwyd y data'n rhannol (gweler y dangosydd datblygu cynaliadwy unigol isod) Yn chwarter 3 – cyflwynwyd y data'n rhannol (gweler y dangosydd datblygu cynaliadwy unigol isod) Yn chwarter 4 – cyflwynwyd y data'n rhannol (gweler y dangosydd datblygu cynaliadwy unigol isod)
Bob chwarter mae'r Awdurdod wedi cyflwyno'n rhannol y data y gofynnwyd amdano fel rhan o broses y dangosyddion datblygu cynaliadwy. Roedd y cyflwyniadau fel y ganlyn: 1. Cyflwyniadau wedi'u cwblhau. 2. Cyflwyniadau wedi'u cwblhau. 3. Cyflwyniadau wedi'u cwblhau. 4. Cyflwyniadau wedi'u cwblhau. 5. Ni chyflwynwyd unrhyw ddata. Nid oes gan yr Awdurdod Lleol system ar waith ar hyn o bryd i fonitro cyfanswm arwynebedd tir datblygiadau tir llwyd / maes glas. 6. Ni chyflwynwyd unrhyw ddata. Nid oes gan yr Awdurdod Lleol system ar waith ar hyn o bryd i fonitro cyfanswm yr arwynebedd a enillwyd/a gollwyd mewn perthynas â mannau agored. 7. Ni chyflwynwyd unrhyw ddata. Rhan A – mae data wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol fodd bynnag. Nid yw Rhan B yn berthnasol gan nad yw'r Awdurdod Cynllunio wedi mabwysiadu Ardoll Seilwaith Cymunedol. Nid oedd llawer o'r data a nodir i'w casglu ar gael yn rhwydd am y rhesymau canlynol: • Yr amser sydd ei angen i ddiweddarau systemau ceisiadau cynllunio: Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn defnyddio system MIS LGS (y cynnyrch Headway yn benodol) i weinyddu ei broses ceisiadau cynllunio. Cyngorwyd yr Awdurdod Cynllunio Lleol tua canol y flwyddyn 2014 fod y system MIS LGS yn cael ei phrynu allan. Pryd hynny, rhoddwyd gwybod i'r Awdurdod y byddai'r cynnyrch Headway yn cael ei ddirwyn i ben dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Felly mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio i ddod o hyd i ddatrysiaid yn lle'r hen system. Dylai hyn gael ei ddatrys erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, a bydd y cynnyrch newydd yn gallu ymdrin â monitro yn llawer mwy effeithiol na'i ragflaenydd (gan gynnwys dangosyddion datblygu cynaliadwy). Yn y cyfamser, mae'r Awdurdod yn parhau i ddibynnu ar system	

Headway. Ni fu modd i'r Awdurdod gael na gofyn am newidiadau i system Headway yn y cyfamser – nid oedd diweddariadau/addasiadau ar gael oherwydd bod y cynnyrch yn cael ei ddirwyn i ben. Felly mae hyn wedi effeithio ar y gwaith o gofnodi a chasglu dangosyddion datblygu cynaliadwy, a bydd yn parhau i wneud nes bod y gwaith o newid i'r system newydd wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus.

- Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cydnabod na fydd yna unrhyw system newydd ar waith i gasglu manylion yn llawn ar gyfer Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018/19 neu 2019/20. Bydd yn casglu data yn gyntaf ar gyfer 2020/21

Dangosydd	SD1. Arwynebedd llawr (metrau sgwâr) y datblygiadau economaidd newydd ar safleoedd a neilltuwyd ar gyfer cyflogaeth a ganiatawyd ac a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn.
------------------	---

Caniatawyd (metrau sgwâr)	
Data'r Awdurdod	4,132

Gwrthodwyd (metrau sgwâr)	
Data'r Awdurdod	0

Y ceisiadau cynllunio canlynol sy'n gyfrifol am y ffigur a nodir uchod mewn perthynas â cheisiadau a ganiatawyd:

E/37312 – Ardal storio nwyddau i mewn i ganiatáu ymestyn y cyfleusterau cynhyrchu – Pullmaflex UK Ltd, Ffordd y Rhyd, Rhydaman, SA18 3ER – 375 m²

E/37324 – Adeilad diwydiannol arfaethedig â ffrâm ddur – Shufflebottom, Heol Parc Mawr, Cross Hands, Llanelli – 589 m²;

E/37602 – Adeiladu uned ddiwydiannol arfaethedig – Llain 3B, Clos Fferws, Capel Hendre, Rhydaman – 928 m²;

W/37037 – Gosod system draenio safle newydd, ymestyn adeilad golchi loriau presennol, codi canopi dros danciau byndio – Wynnstay, Heol Llysonnen, Llangynog, Caerfyrddin – 353 m²;

E/27773 - Uned ddiwydiannol arfaethedig at ddibenion storio/dosbarthu - Uned 6, Ystâd Ddiwydiannol Capel Hendre, Capel Hendre, Rhydaman – 963 m²;

E/35920 – Estyniad arfaethedig ar gyfer ffatri prosesu cig i ddarparu 4 ardal ychwanegol i oeri carcasau, llinell fach ar gyfer anifeiliaid a phlatfform trin a storio dŵr yn yr iard gefn - Cig Calon Cymru, Clos Gelliwerdd, Cross Hands, Llanelli – 924 m²

Dangosydd	SD2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Rhodddwyd caniatâd (nifer y ceisiadau)	
Data'r Awdurdod	3

Rhodddwyd caniatâd (cynhyrchu ynni MW)	
Data'r Awdurdod	1

Roedd y 3 cais a ganiatawyd ar gyfer y canlynol:

- 1 Ynni'r Gwynt (E/34791) – 0.10MW
- 1 Ynni'r Haul (S/37599) – 0.38 MW;
- 1 Bio-màs (W/37121) – 0.20MW.

Dangosydd	SD3. Nifer yr aneddiadau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Tai'r farchnad agored (nifer yr unedau)	
Data'r Awdurdod	519

Tai fforddiadwy (nifer yr unedau)	
Data'r Awdurdod	128

Caiff Tai Fforddiadwy eu diffinio yn Adran 5, Atodiad B, TAN 2: Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy

Tai Fforddiadwy - tai a ddarperir i'r rheiny nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu gan y farchnad agored. Dylai tai fforddiadwy:

- fodloni anghenion aelwydydd cymwys, gan gynnwys eu bod ar gael ar gost ddigon isel iddynt allu eu fforddio, ac a bennir gan ystyried incwm lleol a phrisiau tai lleol; ac
- yn cynnwys darpariaeth i wneud i'r cartref aros yn fforddiadwy ar gyfer aelwydydd cymwys yn y dyfodol, neu os yw cartref yn peidio â bod yn fforddiadwy neu fod y perchnogion yn cynyddu cyfran eu perchentyaeth fel eu bod yn berchen ar y cartref yn llawn, yn gyffredinol dylid aildddefnyddio unrhyw gymhorthdal i ddarparu tai fforddiadwy eraill.

Caiff hyn ei rannu'n ddau is-gategori:

- **Tai Rhent Cymdeithasol** - a ddarperir gan awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lle mae lefelau rhent yn ystyried rhenti canllaw a rhenti meincnod Llywodraeth y Cynulliad; ac
- **Tai Canolradd** - lle mae'r prisiau neu'r rhenti yn uwch na'r rheiny ar gyfer tai rhent cymdeithasol ond islaw prisiau neu renti tai ar y farchnad. Gall hyn gynnwys cynlluniau rhannu ecwiti (er enghraifft Cymorth Prynu). Mae tai canolradd yn wahanol i dai cost isel y farchnad, nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried eu bod yn dai fforddiadwy at ddibenion y system cynllunio defnydd tir.

Dangosydd	SD4. Caniatâd cynllunio a roddwyd ac a wrthodwyd ar gyfer datblygiadau C1 a C2 mewn ardaloedd o orlifdir yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Nifer yr unedau preswyl (a hefyd hectarau o unedau amhreswyl) lle RHODDWDYD caniatâd	
Data'r Awdurdod	29

Preswyl:

E/36658 – Addasu hen adeilad yr hufenfa yn bedair uned breswyl ac un uned fasnachol gyda lle parcio a gofod amwynder a rennir - yr Hen Hufenfa, Heol Cennen, Ffair-fach, Llandeilo – 4 uned

E/35428 - Newid defnydd o fod yn gyn-dŷ tafarn gyda llety gwely a brecwast i fod yn breswylfa breifat - Gwesty'r Kings Arms, 58 Y Stryd Fawr, Llanymddyfri - 1 uned

S/36955 – Defnydd tai amlfeddiannaeth ar gyfer hyd at 7 person – 17 The Golfers Inn, Glandafen Road, Llanelli – 7 uned

S/38048 – Newid y defnydd o dŷ annedd deulawr i dŷ amlfeddiannaeth – 3 Heol y Drindod, Llanelli - 1 uned

E/36788 – Addasu tai allan y buarth yn dri bwthyn gwyliau - tai allan yn Glandulais Fawr, Dryslwyn, Caerfyrddin – 3 uned

E/37462 - Codi un tŷ deulawr pedair ystafell wely - Llain 2, Llys y Nant, Heol y Brenin, Llandybïe, Rhydaman - 1 Uned

E/37775 – Newid defnydd arfaethedig y llawr 1^{af} presennol i fod yn ofod preswyl – yr hen Kings Diner, Heol y Ffowndri, Rhydaman – 1 uned

S/37355 – Dymchwel y byngalo presennol i godi byngalo newydd yn ei le – 63C Heol yr Orsaf, Llangennech, Llanelli – 1 uned

S/37507 – Bwriad i addasu a newid y llawr cyntaf o fod yn hen gampfa i fod yn fflat hunangynhwysol – Fitness Factory, 36 Heol Yr Orsaf, Llanelli – 1 uned

S/37532 – Dymchwel y llyfrgell segur bresennol ac adeiladu annedd ar wahân – yr hen Lyfrgell, Heol y Maes, Llangennech – 1 uned

S/37533 – Addasu'r annedd bresennol yn ddau fflat annibynnol a hunangynhwysol gyda 2 ystafell wely – 66 Heol yr Orsaf, Llanelli – 2 uned

W/35451 – Newid defnydd 4 ysgubor gerrig ddiangen yn 4 uned breswyl ynghyd â'r garejis a'r storfeydd cysylltiedig - Penybont, Meidrim, Caerfyrddin - 4 uned

W/36938 – Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer annedd newydd – tir yn Mhenybont, Heol Caerfyrddin, Glanyfferi, Caerfyrddin – 1 uned

Amhreswyl - C2

E/36658 – Addasu hen adeilad yr hufenfa yn bedair uned breswyl ac un uned fasnachol gyda lle parcio a gofod amwynder a rennir - yr Hen Hufenfa, Heol Cennen, Ffair-fach, Llandeilo – 0.05ha

W/37415 – dymchwel yr Amgueddfa Cyflymder, yr annedd breswyl a'r bloc amwynder presennol i hwyluso'r broses o adeiladu Amgueddfa Traeth y Gwibwyr newydd ynghyd ag eco-hostel 42 ystafell wely – Amgueddfa Cyflymder Pentywyn, Marsh Road, Pentywyn, Caerfyrddin – 0.117ha

S/37352 – Ardal chwarae i blant – oddi ar Heol Derwydd, Porth Tywyn – 0.09ha

S/37582 – Adnewyddu'r adeilad i hwyluso addoldy ar y llawr cyntaf a chaffi/ardal gymunedol atodol ar y llawr gwaelod – Eglwys Gymunedol Tŷ Gwyn, Vauxhall, Llanelli – 0.06ha

S/37736 – Newid defnydd llawr gwaelod 16 Stryd y Parc o ddosbarthiad A1 i ddosbarthiad D1 i ddefnyddio'r uned fasnachol fel clinig meddygol/ciropacteg – 16 Stryd y Parc, Llanelli – 0.0006ha

W/37656 – Estyn yr ystod o ddefnydd a ganiateir ar gyfer yr adeilad a gymeradwywyd dan gais W/35331 i gynnwys defnydd Dosbarth A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol), defnydd swyddfa B1 (busnes – ond gan eithrio ymchwil a datblygu a diwydiant ysgafn uwch-dechnoleg) a D1 (clinigau ac ystafelloedd ymgynghori yn unig) – The Jolly Tar, Y Cei, Caerfyrddin, SA31 3LN – 0.05ha

Amhreswyl - C1

S/37813 – Creu/adfer nodweddion gwlyptir (0.1756ha) ar gyfer bywyd gwyllt ar ardal o dir sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin – tir i'r gogledd o'r rheilffordd, ger Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Penclacwydd, Llanelli – 0.18ha

W/37782 – Newid defnydd siop Cranc Cycles i fod yn feithrinfa i blant – Adeilad Merlin, Heol Llangynnwr, Caerfyrddin – 0.06ha

Nifer yr unedau preswyl (a hefyd hectarau o unedau amhreswyl) lle GWRTHODWYD caniatâd am resymau'n ymwneud â pherygl llifogydd	
Data'r Awdurdod	3

Nid oes data ar hectarau ar gael.

Preswyl – C1

W/38208 – Newid defnydd ardal storio ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf i ddau fflat – 16 Stryd Sant Ioan, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0AN – 2 uned

Preswyl – C3

E/37181 – Byngalo preswyl – hen iard chwarae gerllaw'r hen ysgol, Cyngordy, Llanymdyfri, SA20 0LL – 1 uned

Dangosydd	SD5. Arwynebedd y tir (ha) lle rhoddwyd caniatâd ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen a thir maes glas yn ystod y flwyddyn.
------------------	---

Tir a ddatblygwyd o'r blaen (hectarau)	
Data'r Awdurdod	Data ddim ar gael

Tir maes glas (hectarau)	
Data'r Awdurdod	Data ddim ar gael

Data ddim ar gael. Gweler yr esboniad yn y cyflwyniad i'r Adran Datblygu Cynaliadwy uchod.

Dangosydd	SD6. Arwynebedd y mannau agored cyhoeddus (ha) a gâi ei golli a'i ennill o ganlyniad i'r datblygiadau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y chwarter.
------------------	--

Mannau agored a gollwyd (hectarau)	
Data'r Awdurdod	Data ddim ar gael

Mannau agored a enillwyd (hectarau)	
Data'r Awdurdod	Data ddim ar gael

Data ddim ar gael. Gweler yr esboniad yn y cyflwyniad i'r Adran Datblygu Cynaliadwy uchod.

Dangosydd	SD7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) y cytunwyd arnynt o'r datblygiadau newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y chwarter i ddarparu seilwaith cymunedol.
------------------	--

Enillwyd trwy gytundebau Adran 106 (£)	
Data'r Awdurdod	£457,690.31

Enillwyd trwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (£)	
Data'r Awdurdod	Ddim yn berthnasol

Enillwyd trwy gytundebau Adran 106: Er na chyflwynwyd data i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cyflwyniadau chwarterol hyd yma, erbyn hyn mae modd casglu'r wybodaeth hon ac felly mae wedi cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn.

Ardoll Seilwaith Cymunedol - Nid yw'r ALL yn gweithredu system Ardoll Seilwaith Cymunedol ar hyn o bryd. Felly nid yw ail ran DC7 yn berthnasol.